



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Strategaeth Ddrafft

Ymgynghoriad ar y Strategaeth Cyllid Natur Cymru ddrafft

Dogfen y Strategaeth Cyllid Natur Cymru ddrafft

26 Hydref 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Strategaeth Cyllid Natur Cymru

Cynnwys	
Crynodeb.....	3
Adran 1: Cyflwyniad	6
Pwrrpas.....	6
Yr angen i gydlynu'r buddsoddiad mewn adnoddau naturiol.....	7
Risgiau.....	7
Cyfleoedd	8
Y weledigaeth	9
Ein hagwedd drosfwaol.....	9
Adran 2: Amodau	13
1. Fframweithiau polisi a rheoleiddio effeithiol	14
2. Llinellau sylfaen a thargedau clir.....	16
3. Llifoedd refeniw rhagweladwy a digonol	19
4. Mekanweithiau ariannu a seilwaith ategol	21
5. Safonau, sicrwydd a mesurau diogelu cadarn	24
Adran 3: Gweithredu: Rolau, Llywodraethiant a Chyflawni.....	27
Rolau a chyfrifoldebau	27
Llywodraethiant.....	28
Cynllun cyflawni	30
Atodiadau	34
Atodiad A: Alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	34
Atodiad B: Alinio â thargedau, polisiâu a nodau cenedlaethol a rhyngwladol allweddol.....	37
Atodiad C: Sut y gall risgiau sy'n gysylltiedig â natur a'r hinsawdd sbarduno buddsoddiad	40
Atodiad D: Mekanweithiau ariannu darluniadol.....	41
Atodiad E: Seilwaith ategol	46
Llyfryddiaeth.....	48

Crynodeb

Mae Strategaeth Cyllid Natur Cymru yn rhoi cyfle mawr i Gymru ddod yn geffyl blaen ym maes cyllid natur gonest a moesegol. Trwy greu'r amodau i gyllid allu llifo'n effeithiol, gall Cymru ysgogi buddsoddiad ar y raddfa sydd ei hangen i adfer adnoddau naturiol, i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ac i gynnal cymunedau ffyniannus.

Mae'r Strategaeth am weld y buddsoddiad mewn adnoddau naturiol yn cynyddu mewn ffyrdd sy'n cefnogi lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol hirdymor. Nid yw cyllido natur yn nod ynddo'i hun; mae'n golygu adfer natur, gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, cymunedau llewyrchus a thwf economaidd cynaliadwy a sicrhau yr un pryd bod anghenion cenedlaethau yfory yn ogystal â rhai heddiw yn cael eu hystyried.

Mae gan hyn y potensial i roi cyfleoedd newydd i ffermwyr, busnesau, buddsoddwyr a chymunedau a lleihau yr un pryd y peryglon a'r costau amgylcheddol hirdymor. Yn y pen draw, mae'r Strategaeth yn ymwneud â chreu system cyllido natur fydd yn helpu i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn etifeddu amgylchedd, economi a chymdeithas fwy gwydn nag sy'n bodoli heddiw.

Yr her

Mae colli bioamrywiaeth, y dirywiad yng ngwydnwch ecosystemau a'r newid yn yr hinsawdd yn creu risgiau i bobl, cymunedau a busnesau yng Nghymru, drwy fygwth ein dŵr glân, ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd, ein storfeydd carbon, ein gallu i gynhyrchu bwyd a'n lles. Er mwyn gwrthdroi'r dirywiad sy'n digwydd i'n hadnoddau naturiol, gan gynnwys ecosystemau, bydd yn rhaid wrth waith adfer a rheolaeth gynaliadwy ar raddfa na all cyllid cyhoeddus ar ei ben ei hun ei darparu.

Mae cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn hanfodol a bydd yn parhau i chwarae rôl ganolog. Fodd bynnag, mae maint y gwelliannau amgylcheddol sydd eu hangen yn golygu na all cyllid cyhoeddus ar ei ben ei hun dalu am y newidiadau hirdymor sydd eu hangen. Y nod yw denu'r sectorau cyhoeddus, preifat a chymysg i fuddsoddi rhagor o arian mewn prosiectau sy'n adfer, diogelu a rheoli'n gynaliadwy adnoddau naturiol gan sicrhau yr un pryd fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Strategaeth Cyllid Natur Cymru

Mae Strategaeth Cyllid Natur Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer cynyddu'r buddsoddiad mewn adnoddau naturiol drwy gydlyn cyllid cyhoeddus, preifat a chymysg i'w wario ar weithgareddau sy'n adfer a diogelu adnoddau naturiol ac yn eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'n canolbwyntio ar wella'r amodau sydd eu hangen i gyllid allu llifo'n effeithiol, o ran polisi a rheoleiddio, tystiolaeth, refeniw, mecanweithiau ariannu, seilwaith ategol a llywodraethiant. Trwy wneud, bydd yn helpu i gyfeirio buddsoddiad tuag at y canlyniadau amgylcheddol a'r buddion cyhoeddus ehangach y mae Cymru am eu gweld, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu ar Hinsawdd a Natur.

Canlyniadau

Rydym am adeiladu Cymru ffyniannus, gwydn ac iachach, lle mae twf yr economi'n cyfoethogi ein hadnoddau naturiol, yn ein cryfhau i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ac yn helpu ein pobl, busnesau, cymunedau a'n hamgylchedd i ffynnu. Nod y Strategaeth yw sicrhau pedwar canlyniad sy'n cefnogi'r weledigaeth hon:

1. Cynyddu buddsoddiad cyhoeddus, preifat a chymysg mewn adnoddau naturiol.
2. Adfer yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau trwy fuddsoddi mwy i adfer a diogelu adnoddau naturiol a'u rheoli'n gynaliadwy.
3. Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys ymrwymïadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, newid hinsawdd a gwydnwch ecosystemau.
4. Manteision cymunedol a lleol, gan sicrhau bod y buddsoddiad yn dod â rhoi gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i gymunedau ledled Cymru.

Beth sydd angen ei newid

Er mwyn cynyddu'r cyllid i natur yng Nghymru, mae'r Strategaeth yn nodi pum amod sydd eu hangen ar system cyllido natur effeithiol ac yn asesu cyflwr yr amodau hynny er mwyn blaenoriaethu cyfleoedd ar gyfer gwella. Cefnogir yr amodau hyn gan drefniadau llywodraethu priodol sy'n cydlynu, goruchwyllo, yn sicrhau atebolrwydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

1. Fframweithiau Polisi a Rheoleiddio: Creu'r sicrwydd o ran polisi, cymhellion a'r galw sydd eu hangen i fuddsoddi mewn canlyniadau amgylcheddol.
2. Tystiolaeth, Llinellau Sylfaen a Thargedau: Deall yr amodau presennol, pennu blaenoriaethau a diffinio'r canlyniadau a'r anghenion buddsoddi sydd eu hangen i'w cyflawni.
3. Refeniw a Galw: Datblygu ffrydiau refeniw rhagweladwy a digonol i gefnogi cyfleoedd buddsoddi, tra'n cynyddu'r galw am ganlyniadau amgylcheddol.
4. Mekanweithiau Cyllido a Seilwaith Ategol: Cryfhau'r mecanweithiau cyllido, y biblinell o brosiectau, systemau data, contractau, cofrestri a seilwaith arall sydd eu hangen i ysgogi buddsoddiad yn effeithlon.
5. Safonau, Sicrwydd a Mesurau Diogelu: Sicrhau bod canlyniadau amgylcheddol yn gredadwy, mesuradwy, tryloyw a dibynadwy, trwy safonau, monitro, adrodd, dilysu a mesurau diogelu.

Y cynllun cyflawni

Er mwyn cynnal y gwelliannau angenrheidiol, mae'r Strategaeth yn cynnig rhaglen waith gymalog. Gan fod cyllido natur yn faes newydd sy'n esblygu'n gyflym, rhaid bod yn barod i fod yn hyblyg wrth ei rhoi ar waith. Bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu a'i mireinio dros amser wrth i dystiolaeth, profiad ac aeddfedrwydd systemau ddatblygu.

Cam 1 (2026-2027): Creu'r Amodau Galluogi, sy'n canolbwyntio ar:

- gwella tystiolaeth a dealltwriaeth o'r hyn y mae angen buddsoddi ynddo;
- alinio polisi a gwariant cyhoeddus;
- meithrin galluedd a chymunedau ymarfer;
- cyhoeddi canllawiau ar gymysgu, pentyrru ac ychwanegedd;
- profi mecanweithiau a dulliau cyllido.

Cam 2 (2028-2030): Adeiladu'r System, sy'n canolbwyntio ar:

- ehangu a mireinio mecanweithiau cyllido;
- datblygu safonau, mesurau diogelu a threfniadau llywodraethu;
- sefydlu seilwaith ategol;
- datblygu ffyrdd o sbarduno'r galw;
- cryfhau trefniadau cyllido cymysg a rhannu risg.

Cam 3 (2030 ymlaen) Cynyddu ac Ymwreiddio, sef:

- ehangu dulliau llwyddiannus;
- gwneud buddsoddi amgylcheddol yn ystyriaeth ym mhob penderfyniad;
- cynnal sicrwydd polisi hirdymor ac ennyn hyder y farchnad;
- sefydlu Cymru fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer buddsoddi gonest a moesegol mewn adnoddau naturiol;
- monitro, gwerthuso a gwella'r system yn barhaus.

Llywodraethu a Phartneriaeth

Mae'r Strategaeth yn cydnabod na all yr un corff ddatblygu na chynyddu cyllid natur yng Nghymru ar ei ben ei hun. Bydd llwyddiant yn dibynnu ar lywodraethu, cydweithio, rhannu gwybodaeth a gweithredu cydgysylltiedig effeithiol ar draws sectorau i greu a chynnal system cyllido natur onest a moesegol. Bydd trefniadau llywodraethu priodol yn helpu i gydlynw'r cyflawni, yn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd, yn rheoli risgiau ac yn sicrhau bod cyllid natur yn cyfrannu at flaenoriaethau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar wella'r amodau sydd eu hangen i gyllid allu llifo'n effeithiol, gan gynnwys alinio polisi a rheoleiddio, tystiolaeth gadarn, llifoedd refeniw rhagweladwy, mecanweithiau cyllido ymarferol, seilwaith ategol a llywodraethiant dibynadwy. Trwy wneud, mae'n helpu natur i ymadfer, yn lliniaru effeithiau'r hinsawdd ac addasu iddynt ac yn cynnal gweithgareddau eraill fydd yn cael eu datblygu yn y Cynllun Gweithredu ar Hinsawdd a Natur. Bydd Cymru'n ceisio alinio â threfniadau Prydeinig a rhyngwladol sy'n cael eu datblygu lle bo hynny'n briodol, yn hytrach na dyblygu systemau yn ddiangen.

Nid yw'r Strategaeth yn ceisio disodli cyllid cyhoeddus, troi pob agwedd ar natur yn nwydd, creu marchnadoedd ar gyfer pob canlyniad amgylcheddol, na rhagnodi un model cyllido. Nid yw chwaith yn ymrwymo Cymru i ddefnyddio unrhyw fecanwaith cyllido penodol. Yn hytrach, mae'n fframwaith ar gyfer gweld lle gall cyllid cyhoeddus, preifat a chymysg ategu ei gilydd orau. Mae'n cydnabod bod adfer natur yn gofyn am gydweithio rhwng cyrff cyhoeddus, busnesau gan gynnwys busnesau bach a chanolig, buddsoddwyr, rheolwyr tir a môr, mudiadau amgylcheddol a chymunedau yn ogystal ag am gynnal safonau uchel o ran iechyd amgylcheddol, tryloywder a gwerth cyhoeddus.

Yr angen i gydlynu'r buddsoddiad mewn adnoddau naturiol

Risgiau

Adnoddau naturiol, gan gynnwys ecosystemau, sy'n darparu'r seilwaith sy'n sail i economi gyfan Cymru a'n gallu i lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Mae Adolygiad Dasgupta yn tynnu sylw at bwysigrwydd sylfaenol natur fel ased sy'n sail i'r bwyd, dŵr, hinsawdd a gwasanaethau ecosystem eraill y mae ein heconomi, ein cymunedau a'n lles yn dibynnu'i arnynt. Wrth ystyried cyfraniad pwysig yr asedau naturiol hyn yng Nghymru, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod cyfalaf naturiol Cymru yn 2023 wedi cefnogi gwasanaethau ecosystem sydd werth tua £1.64bn bob blwyddyn a gwerth eu hasedau cysylltiedig yw rhyw £84.9bnⁱⁱ. Mae astudiaeth ddiweddar yn awgrymu y gallai pob £1 a fuddsoddir mewn ym myd natur gynhyrchu rhwng £4 a £30 o werth ledled y DUⁱⁱⁱ; mae buddsoddi mewn adnoddau naturiol yn fuddsoddiad mewn seilwaith gwydn^{iv}.

Eto mae ein hadnoddau naturiol wedi'u dirywio'n ddifrifol ac mae angen llawer o waith i'w hadfer. Prin yw'r gwledydd yn y byd sydd wedi colli cyfran fwy o'i natur na Chymru. Mae 1 o bob 6 o'n rhywogaethau mewn perygl o ddiflannu yng Nghymru^v a dim ond 10% o'n tir sy'n cael ei warchod,^{vi} ac mae bron i 80% o hwnnw mewn cyflwr gwael ac angen llawer o waith adfer arno^{vii}. Mae tua hanner y rhywogaethau a'r cynefinoedd a aseswyd yn ardaloedd morol gwarchodedig Cymru mewn cyflwr anffafriol^{vii above}. Yn 2021, cyhoeddodd y Senedd bod hi'n argyfwng ar natur Cymru^{viii}.

Mae dirywiad ein hadnoddau naturiol yn bygwth ein hiechyd, ein heconomi a'n cymunedau. Ym mis Chwefror 2026, dywedodd Llywodraeth y DU fod ein diogelwch a'n ffyniant o dan fygythiad difrifol oherwydd y dirywiad ym myd natur^{ix}. Yn lleol, gall ecosystemau sydd wedi'u dirywio gynyddu risgiau i gymunedau a busnesau trwy brinder dŵr, tywydd eithafol, dirywiad yn iechyd y pridd, cynhyrchiant amaethyddol is a tharfu ar y gadwyn gyflenwi^x. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn aml yn gwaethygu'r

effeithiau hyn ac rydyn ni eisoes yn eu teimlo; mae pedwar o'r pum cynhaeaf gwaethaf yn y DU wedi digwydd yn y 2020au yn dilyn cyfnodau o lifogydd eithafol, sychder, tonnau gwres a thanau gwyllt.^{xi} Ar raddfa fyd-eang, gall dirywiad natur gyfrannu at risgiau ehangach gan gynnwys pandemigau, ymfudo, gwrthdaro a throseddu cyfundrefnol^{ix}. Yn ogystal â'r effeithiau economaidd, mae dirywiad natur yn effeithio ar y tirweddau, y morluniau, y cynefinoedd a'r adnoddau naturiol sy'n rhan o hunaniaeth ddiwylliannol, iaith, treftadaeth ac ymdeimlad o le Cymru^{xii}.

Mae adnoddau naturiol wedi'u dirywio yn creu risgiau ariannol sylweddol i fusnesau a'n heconomi. Tynnodd yr IPBES, panel rhyngwladol o wyddonwyr, economegwyr ac ecolegwyr, sylw at y ffaith bod pob sector economaidd yn dibynnu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar natur^{xiii}. Mae diwydiannau fel seilwaith, ynni, echdynnu ac amaethyddiaeth yn dibynnu'n uniongyrchol ar systemau naturiol ond eto nhw sy'n gyfrifol am lawer o'r dirywiad i'r amgylchedd^{xiii}. Mae'r sector ariannol yn agored i niwed trwy'r gweithgareddau y mae'n benthyca iddynt, yn eu hyswrio ac yn buddsoddi ynddynt, gan beri i'r risgiau i natur ledaenu i bob rhan o'r economi^{xiv}. Amcangyfrifir y gallai'r dirywiad i natur, os nad eir i'r afael ag e' mewn modd digonol, arwain at fwy o niwed i GDP cenedlaethol nag argyfwng ariannol bydeang 2008 neu bandemig Covid-19^{xv}.

Cyfleoedd

Yn ogystal â mynd i'r afael â'r risgiau hyn, mae trosglwyddo i economi fwy cynaliadwy a gwydn yn cynnig cyfleoedd mawr i'n cymunedau^{xvi}. Mae'r newid i Sero Net eisoes yn cyfrannu tua £4bn mewn GVA ac yn cynnal dros 41,300 o swyddi, gyda chynhyrchiant economi Sero Net Cymru 72% yn uwch na chyfartaledd Cymru^{xvii}. Mae cyllid natur yn cynnig cyfleoedd i'r economi werdd a glas, trwy greu ffrydiau incwm newydd ar gyfer cymunedau gwledig ac arfordirol trwy gynhyrchu gwasanaethau ecosystem ochr yn ochr â bwyd, a chefnogi busnesau bach a chanolig a swyddi mewn ardaloedd sy'n dioddef o ddiboblogi. Mae'r gofyniad cynllunio yn Lloegr i adael bioamrywiaeth mewn cyflwr gwell wedi ysgogi £325m o fuddsoddi preifat, creu 200 o sefydliadau newydd, 450 o swyddi (ynghyd ag 800 o gontractwyr) ac yn neilltuo cannoedd o filoedd o bunnau i ffermwyr i gynnal prosiectau natur ar dir sydd fel arall yn anghynhyrchio^{xviii}. Mae'r rhaglen Lleodedd Lleol ar gyfer Natur yn dangos nad yw cyfleoedd cyllido natur wedi'u cyfyngu i gefn gwlad neu'r ucheldir; mae cyfleoedd yn bodoli mewn ardaloedd trefol lle mae seilwaith gwyrdd a glas yn oeri trefi, yn amddiffyn rhag llifogydd ac erydiad arfordirol, yn puro aer, yn gwella iechyd a lles ac yn creu lleoedd mwy deniadol i fyw a gweithio ynddyn nhw^{xix}. Mae'r sector busnes yn y DU sy'n gysylltiedig â natur yn tyfu tua 23% flwyddyn ar ôl blwyddyn. Amcangyfrifir bod ganddo'r potensial i gynnal tua 80,000 o swyddi lleol hirdymor a chynhyrchu £81bn o allbwn economaiddⁱⁱⁱ.

Er mwyn manteisio ar gyfleoedd a rheoli risgiau, rhaid mynd ati mewn ffordd gydgyssylltiedig trwy'r wlad. Gan fod pob sector yn dibynnu ac yn effeithio ar ein hadnoddau naturiol, rhaid rhannu'r cyfrifoldeb am eu cynnal a'u gwella. Dim ond trwy ddefnyddio cyllid preifat i ategu (nid disodli) cyllid cyhoeddus y gallwn greu model sy'n gallu sicrhau graddfa'r newid sydd ei hangen gan sicrhau yr un pryd bod y costau a'r manteision yn cael eu rhannu'n deg. Mae Strategaeth Cyllid Natur Cymru, a ddatblygwyd gyda rhanddeiliaid, yn nodi sut i dalu am adfer ein hadnoddau naturiol


mewn ffordd sy'n datblygu ac yn cefnogi arferion cadarnhaol presennol a dod â buddion yn deg i'n pobl a'n cymunedau.

Y weledigaeth


Rydym am adeiladu Cymru ffyniannus, gwydn ac iachach, lle mae twf yr economi'n cyfoethogi ein hadnoddau naturiol, yn ein cryfhau i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ac yn helpu ein pobl, busnesau, cymunedau a'n hamgylchedd i ffynnu. Mae'r Strategaeth yn cefnogi'r weledigaeth hon (gweler Ffigur 2) trwy ddarparu un o'r prif fecanweithiau cyflawni o dan y Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur sy'n cael ei ddatblygu. Trwy wneud, mae'r Strategaeth yn helpu i droi'n dyletswyddau a'n hymrwymiaid yn weithredu. Mae hyn yn cynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015^{xii} (gweler Atodiad A), y rhwymedigaeth gyfreithiol i gyrraedd Sero Net yn 2050, a'n dyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth i hyrwyddo ecosystemau gwydn drwy'r egwyddorion amgylcheddol a'r targedau bioamrywiaeth a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Targedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026^{xx}. Crëwyd yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy ar gyfer Adnoddau Naturiol^{xxi} er mwyn dechrau llywio gweithgarwch economaidd tuag at greu manteision parhaol i bobl, lleoedd a natur. Mae'r rhwymedigaethau a'r fframweithiau cenedlaethol a rhyngwladol allweddol y mae'r Strategaeth hon wedi cael ei datblygu i'w halinio â nhw wedi'u rhestru yn Atodiad B.

Ein hagwedd drosfwaol

Nod ein hagwedd drosfwaol at gyllido adnoddau naturiol yw lleihau'r niwed i adnoddau naturiol wrth gynyddu'r cyllid sydd ar gael (a'i effeithiolrwydd) ar gyfer adfer a diogelu (Ffigur 3). Mae hyn yn cyd-fynd ag amcan Menter Cyllido Bioamrywiaeth (BIOFIN) Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig (CU) i gau'r bwlc rhwng y lefelau cyllido presennol a'r swm sydd ei angen i adfer natur.



Ffigur 2: Siart llif sy'n dangos sut y bydd y Strategaeth yn cyfrannu at ei gweledigaeth ar gyfer Cymru. Mae pum amod galluogi, gan gynnwys polisi a rheoleiddio, tystiolaeth, llifoedd cyllid, seilwaith ategol a safonau a mesurau diogelu, yn creu'r sylfeini sydd eu hangen i gyflawni tri amcan cyllido natur. Bydd yr amcanion hyn yn cyfrannu at bedwar canlyniad: buddsoddi mwy mewn adnoddau naturiol, adferiad amgylcheddol a gwydnwch ecosystemau, taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol a manteision cymunedol a lleol. Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau hyn yn cefnogi'r weledigaeth ehangach o Gymru ffyniannus, cydnerth ac iachach.



Ffigur 3: Graff sy'n dangos sut y mae'r Strategaeth am gyllido adferiad natur. Mae'n dangos bod y cyllid sydd ei angen i adfer adnoddau naturiol yn fwy na'r lefelau buddsoddi presennol. Amcan y Strategaeth yw cau'r bwlch hwn trwy leihau'r angen am gyllid ar y naill law trwy osgoi niweidio'r amgylchedd ac alinio gwariant, ac ar y llall cynyddu cyllid trwy greu rhagor o refeniw a gwella canlyniadau'r gwariant presennol. Gyda'i gilydd, bydd y gweithredoedd hyn yn helpu i symud o fwlch cyllid sy'n anhysbys a lefel cyllido sydd heb ei fesur i ddealltwriaeth well o'r buddsoddiad sydd ei angen a'r arian sydd ar gael.

Er mwyn lleihau'r niwed i adnoddau naturiol, rydym am ganolbwyntio ar leihau ac ailgyfeirio'r llif arian sy'n cyfrannu at ddirywio natur. Drwy'r byd, mae mwy yn cael ei wario ar weithgareddau a all niweidio natur nag ar ei diogelu a'i hadfer; mae tua US\$7tn yn cael ei fuddsoddi bob blwyddyn mewn gweithgareddau sydd eu hunain yn niweidio natur, mwy na 30 gwaith y swm sy'n cael ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn atebion sy'n seiliedig ar natur^{xxii}. Gallai ailgyfeirio hyd yn oed cyfran fach o'r llif ariannol niweidiol hwn leihau'r angen am gyllid ychwanegol trwy symud cyfalaf oddi wrth weithgareddau sy'n dirywio natur a'i ddefnyddio i adfer a gwrchod natur^{xvi}. Er enghraifft, dylai'r sector cyhoeddus sicrhau nad yw gwariant grantiau, cymorthdaliadau a chaffael yn cefnogi arferion niweidiol. Mae hyn yn ategu Atal fel ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF) y CU, lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i newid cymhellion a chymorthdaliadau sy'n niweidiol i fioamrywiaeth a chynyddu cymhellion sy'n cefnogi adferiad natur (Targed 18). Yn yr un modd, dylai'r sector preifat sicrhau nad yw gwariant ar draws y gadwyn gwerth yn arwain at niwed. Trwy leihau pwysau ar adnoddau naturiol cyn bod angen eu hadfer, gall gweithredu ataliol wella canlyniadau amgylcheddol a lleihau costau yn y dyfodol.

Yn ogystal â gwario llai o gyllid ar yr hyn sy'n dirywio natur, rydym hefyd am weld cynnydd yn y cyllid sydd ar gael i adfer a chyfoethogi adnoddau naturiol.

Ymhlith yr hyn y gellid ei wneud i gynhyrchu refeniw ychwanegol y mae gorfodi camau lliniaru yn dilyn arferion niweidiol, defnyddio cyllid cyhoeddus i ddadrisgio buddsoddiad preifat cynnar, sefydlu marchnadoedd cydymffurfio, cynyddu buddsoddiad y sector preifat mewn adnoddau naturiol i ddelio â'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â natur a'r hinsawdd a gwneud y gadwyn gyflenwi'n fwy gwydn^{xxvi}. Mae hyn yn cyd-fynd â Tharged 19 y GBF, lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sbarduno'r sectorau cyhoeddus a phreifat i gyllido gwaith i adfer, diogelu a defnyddio'n gynaliadwy adnoddau naturiol ar raddfa fawr. Dylai'r sector cyhoeddus a phreifat sicrhau bod y cyllido mor effeithlon â phosibl, gan sicrhau'r canlyniadau gorau a darparu gwerth am arian.

Er mwyn adfer a chynnal adnoddau naturiol Cymru, mae angen cyllid mawr, mwy na chapasiti cyllido'r sector cyhoeddus ar ei ben ei hun. Mae

astudiaethau'n nodi'n gyson bod bwlch sylweddol rhwng y lefelau buddsoddi a'r hyn sydd ei angen i adfer natur, gwrthsefyll newid hinsawdd a chyflawni amcanion amgylcheddol ehangach^{xxiii, xxiv, xxv}. Er bod busnesau ar draws yr economi naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ddibynol ac yn elwa ar adnoddau naturiol, cyllid cyhoeddus ar hyn o bryd sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf i fuddsoddi i adfer natur^{xxvi}. Un o bwrpasau craidd y Strategaeth hon felly yw ysgogi mwy o fuddsoddiad preifat ynghyd â chyllid cyhoeddus, helpu i gau'r bwlch cyllid a sicrhau bod costau a manteision adfer natur yn cael eu rhannu'n decach ar draws cymdeithas.

Mae cyllid natur yn faes sy'n esblygu'n gyflym, ac mae angen ffordd hyblyg o'i rhoi ar waith arnom. Gan gydnabod hyn, mae'r Strategaeth yn cynnig fframwaith y gellir yn hawdd ei addasu, a fydd yn galluogi Cymru i weithredu nawr a pharhau i ddysgu a gwella wrth i dystiolaeth, safonau a phrofiad ymarferol ddatblygu. Mae'r strategaeth, sy'n seiliedig ar ymchwil, barn rhanddeiliaid, ymgynghoriad cyhoeddus a'r dystiolaeth orau, yn cydbwysu'r angen am weithredu â realiti ansicrwydd parhaus. Drwy weithredu, treialu, monitro a gwerthuso, gall Cymru fireinio pethau dros amser ac adeiladu system cyllido natur sy'n darparu manteision parhaol i natur, pobl a'r economi.

Adran 2: Amodau



Ffigur 3: Diagram yn dangos fel system gydgyssylltiedig y pum amod sydd eu hangen i gynyddu cyllid natur. Mae pedwar o'r amodau hyn: llinellau sylfaen a blaenoriaethau clir, llifoedd cyllid rhagweladwy a digonol, mecanweithiau effeithiol a seilwaith ategol a safonau, sicrwydd a mesurau diogelu cadarn, i gyd yn gweithio gyda'i gilydd ar sylfaen ehangach o fframweithiau polisi a rheoleiddio effeithiol. Mae'r ffigur yn dangos bod llwyddiant yn dibynnu ar gael y pum amod i ddatblygu gyda'i gilydd, gyda pholisi a rheoleiddio'n sail i'r system gyfan.

Er mwyn sbarduno a chynyddu'r buddsoddiad mewn adnoddau naturiol, rhaid wrth amodau penodol (a ddangosir yn Ffigur 4). Mae'r amodau hyn yn adlewyrchu arferion gorau rhyngwladol, gan gynnwys BIOFIN^{xxxi} a'r OECD^{xvi}, sy'n pwysleisio mor bwysig yw deall yr amodau presennol, creu fframweithiau polisi cefnogol, datblygu mecanweithiau ariannol priodol a galluogi buddsoddiad i lifo i sicrhau canlyniadau amgylcheddol. Er nad yw llywodraethiant yn cael ei gyflwyno fel amod ar wahân, mae'n sail i'r pump trwy ddarparu'r strwythurau, rheolau, goruchwyliaeth ac atebolrwydd sydd eu hangen i gydlynu gweithredu, ennyn ymddiriedaeth a sicrhau bod cyllid yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir^{xvi}. Cafodd yr amodau eu profi a'u mireinio trwy drafod helaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru. Mae'r Strategaeth hefyd yn asesu aeddfedrwydd presennol pob amod trwy gyfres o nodweddion a sgoriau aeddfedrwydd Coch, Melyn neu Wyrdd (CMG), gan helpu i nodi cryfderau,

bylchau a meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Gyda'i gilydd, mae'r asesiadau hyn yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun cyflawni a ddisgrifir yn Adran 3.

1. Fframweithiau polisi a rheoleiddio effeithiol

Mae fframweithiau polisi a rheoleiddio yn rhoi'r sicrwydd, y galw a'r cymhellion sydd eu hangen i gael cyllid i lifo tuag at sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol^{xxvii}, ^{xxviii}.

Mae dystiolaeth yn dangos yn gyson nad diffyg cyfalaf yw'r rhwystr allweddol i gynyddu cyllid natur, ond yr amodau polisi, llywodraethu a sefydliadol sydd eu hangen i roi'r hyder i sefydliadau ac unigolion buddsoddi mewn canlyniadau amgylcheddol, eu cyllido a'u sicrhau^{xxix}, ^{xxx}. Clywyd rhanddeiliaid yn ategu hyn yn gyson wrth i ni ddatblygu'r Strategaeth, gan ddweud hefyd bod signalau polisi clir, sbardunau i gynyddu'r galw a sicrwydd hirdymor yn hanfodol i ddenu buddsoddiad mewn canlyniadau amgylcheddol.

Gall y llywodraeth ddefnyddio polisi a rheoliadau i lywio'r mathau o alw am ganlyniadau amgylcheddol. Gall gofynion rheoleiddio greu galw gorfodol trwy fecanweithiau fel polisi cynllunio, rhwymedigaethau cydymffurfio amgylcheddol, rheoliadau sector a gofynion diwydrwydd dyladwy amgylcheddol. Gall y llywodraeth hefyd ddylanwadu ar buddsoddiad trwy gaffael cyhoeddus, fframweithiau datgelu a rhaglenni cyllido cyhoeddus sy'n cymell canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Ar yr un pryd, gall polisi annog a dadrisgio buddsoddiad gwirfoddol trwy roi signalau clir i'r farchnad, fframweithiau dibynadwy a hyder y bydd canlyniadau amgylcheddol yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo.

Gall y llywodraeth ddylanwadu'n sylweddol ar lif buddsoddiad trwy alinio amcanion polisi a chymhellion. Yn unol â Tharged 14 y GBF, mae hyn yn cynnwys gwneud bioamrywiaeth yn ystyriaeth annatod ar draws meysydd polisi, cynllunio, rheoliadau a gwariant cyhoeddus^{xvi}. Mae Targed 18 y GBF yn cydnabod ymhellach bwysigrwydd newid cymhellion sy'n cyfrannu at golli natur a chryfhau'r rhai sy'n cefnogi gwelliant amgylcheddol. Gall alinio polisi a rheoliadau fel hyn wneud gwariant cyhoeddus yn effeithlon, lleihau'r pwysau ar adnoddau naturiol a helpu i ysgogi buddsoddiad ychwanegol i adfer natur. Pwysleisiodd rhanddeiliaid hefyd bwysigrwydd sicrhau bod cyllid cyhoeddus a phreifat yn ategu ei gilydd, yn enwedig lle ceir mwy nag un ffynhonnell gyllido'n cyfrannu at yr un canlyniadau amgylcheddol.

Aeddfedrwydd presennol

Mae aeddfedrwydd presennol yr amod hwn yn cael ei asesu trwy saith nodwedd (Tabl 1).

Tabl 1: Asesu aeddfedrwydd fframweithiau polisi a rheoleiddio

Nodwedd	Statws CMG	Cyfiawnhad
Sicrwydd polisi hirdymor a thargedau amgylcheddol	Melyn	Mae gan Gymru ymrwymïadau hirdymor cryf gan gynnwys Sero Net, dyletswyddau bioamrywiaeth, targedau bioamrywiaeth, targedau GBF a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

		Fodd bynnag, mae llawer o'r polisiâu, mecanweithiau cyllido natur, safonau a fframweithiau cyflawni sydd eu hangen i wireddu'r uchelgeisiau hyn dal wrthi'n cael eu datblygu, gan greu ansicrwydd ynghylch eu gweithredu a ffrwyno hyder buddsoddwyr a datblygwyr prosiectau.
Alinio amcanion polisi ar draws sectorau	Melyn	Ceir aliniad strategol cryf rhwng adfer natur, addasu i'r hinsawdd, ansawdd dŵr, gwrthsefyll llifogydd, rheoli tir yn gynaliadwy a pholisi datblygu economaidd. Yn unol â'r ffordd Integreiddio o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r meysydd polisi hyn yn cydnabod fwyfwy y gyd-ddibyniaeth rhwng canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, mae gweithredu ac integreiddio ymarferol ar draws portffolios yn dal i ddatblygu.
Alinio gwariant cyhoeddus â chanlyniadau amgylcheddol (gan gynnwys caffael, grantiau a chymorthdaliadau)	Melyn	Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i newid cymhellion niweidiol a chryfhau cymhellion cadarnhaol drwy Darged 18 y GBF a rhaglenni fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fodd bynnag, nid oes adolygiad systematig wedi'i gynnal eto ar gyfer eu halinio.
Rheoleiddio i sbarduno'r galw am ganlyniadau amgylcheddol	Melyn	Mae gan Gymru fesurau rheoleiddio sydd ar droed i sbarduno'r galw gan gynnwys niwtraliaeth maetholion, Manteision Net i Fioamrywiaeth, Sero Net Cymru, rheoliadau ansawdd dŵr, amcanion addasu i'r hinsawdd a buddsoddiad cynyddol gan y sector dŵr mewn atebion naturiol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain eto'n creu'r maint, y sicrwydd na'r cysondeb i'r galw a welir mewn systemau mwy aeddfed ac mae angen mwy o gydlynw.
Mesurau ariannol sy'n gwobrwyo canlyniadau cadarnhaol ac yn atal niwed	Coch	Defnydd cyfyngedig o drethi, ffioedd, ardollau neu gymhellion ariannol sydd wedi'u cynllunio'n benodol i wobrwyo gwelliant yn yr amgylchedd neu atal gweithgareddau sy'n dirywio adnoddau naturiol. Mae'r liferi cyllidol cryfaf oll yn cael eu creu ar lefel y DU.
Gofynion datgelu sy'n gysylltiedig â natur a'r hinsawdd	Coch	Er bod fframweithiau a allai ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ddatgelu gwybodaeth benodol am natur a hinsawdd, megis Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, gwirfoddol o hyd i raddau helaeth yw'r fframweithiau datgelu corfforaethol sy'n gysylltiedig â natur a'r hinsawdd ar gyfer personau preifat ac nid oes gan Gymru ofynion adrodd penodol. Mae'r rhan fwyaf o ofynion datgelu yn cael eu creu ar lefel y DU.

Sbardunau gwirfoddol y galw yn y sector preifat	Melyn	Daw'r galw trwy weithredu gwirfoddol, rheoli risg, ymrwymïadau i gynaliadwyedd ac adrodd sy'n gysylltiedig â natur a'r hinsawdd. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn gymharol anaeddfed ac yn annigonol i yrru buddsoddiad ar y raddfa sydd ei hangen ar gyfer adferiad natur.
---	-------	---

Cyfleoedd blaenoriaeth

Mae'r asesiad aeddfedrwydd yn nodi pum cyfle â blaenoriaeth ar gyfer gwella:

1. Alinio a chydlynw gwell ar draws meysydd polisi i roi signalau clir, cyson a hirdymor ar gyfer buddsoddi.
2. Alinio gwariant, caffael, grantiau a chymhellion cyhoeddus â chanlyniadau amgylcheddol.
3. Cryfhau sbardunau'r galw am ganlyniadau amgylcheddol trwy reoleiddio, cynllunio a gofynion sector-benodol yn ôl y gofyn.
4. Cynyddu dealltwriaeth a'r defnydd o fframweithiau datgelu corfforaethol sy'n gysylltiedig â natur a'r hinsawdd a'u dylanwad ar benderfyniadau buddsoddi.
5. Archwilio rôl mesurau cyllidol a sbardunau polisi ehangach o ran annog gwelliant amgylcheddol ac osgoi gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddirywiad, sef y rheini sydd o fewn pwerau Gweinidogion Cymru neu o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a gweithio gyda Llywodraeth y DU i ystyried y rheini nad ydynt.

Ymdrinnir â'r cyfleoedd hyn drwy gamau gweithredu a ddisgrifir yn y Cynllun Cyflawni.

2. Llinellau sylfaen a thargedau clir

Mae llinellau sylfaen a thargedau clir yn hanfodol er mwyn gallu cyfeirio'r buddsoddiad tuag at y canlyniadau amgylcheddol yr ydym am eu sicrhau.

Maent yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i benderfynu beth sydd angen ei wneud, ble mae ei angen a sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur. Heb ddealltwriaeth glir o'r amodau presennol a'r canlyniadau a ddymunir, mae perygl i'r buddsoddiad cyhoeddus a phreifat fynd yn dameidiog, a bod yn anodd ei dargedu a dangos ei effaith. Wrth ddatblygu'r Strategaeth, pwysleisiodd rhanddeiliaid hefyd fod llinellau sylfaen a thargedau yn helpu i ddangos ble mae angen targedu buddsoddiad i sicrhau'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd mwyaf, gan gynnwys swyddi, sgiliau, lles a chymuned wydn. Felly, maent yn sylfaen ar gyfer cael hyd i gyfleoedd y gellir buddsoddi ynddynt a datblygu piblinell o brosiectau a allai ddenu cyllid.

Mae llinellau sylfaen yn dangos beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd gan roi pwynt cyfeirio y gellir ei ddefnyddio i fesur newid. Gyda BIOFIN, mae hyn yn cynnwys

deall cyflwr asedau ac ecosystemau naturiol, llif cyfredol cyllid, sbardunau dirywio ac adfer yr amgylchedd a chyfleoedd ar gyfer gwella^{xxxi}. Cyfeiriodd rhanddeiliaid hefyd at bwysigrwydd deall sut y gallai cyflwr adnoddau naturiol newid dros amser heb ymyrraeth, a bod hynny'n helpu i ddangos manteision posibl buddsoddiad. Ar lefel prosiect, mae llinellau sylfaen cadarn yn bwyntiau cyfeirio cyson ar gyfer asesu effeithiau a gwelliannau.

Mae targedau yn rhoi cyfeiriad clir ar gyfer gweithredu a buddsoddi. Mae targed yn troi uchelgais hirdymor yn ganlyniad mesuradwy ar lefel gwlad, rhanbarth, dalgylch, tirwedd, ardal forol a phrosiect. Mae hyn yn cefnogi atebolrwydd, yn ei gwneud yn bosib olrhain cynnydd dros amser ac yn helpu i gyfeirio buddsoddiad i'r lleoedd a'r gweithgareddau sy'n gallu sicrhau'r manteision amgylcheddol a chymdeithasol mwyaf. Gall targedau sy'n seiliedig ar le helpu hefyd i sicrhau bod y buddsoddiad yn cyfrannu at ganlyniadau ehangach i gymunedau, gan gynnwys gwydnwch, llesiant, sgiliau, cymryd rhan yn yr economi a blaenoriaethau diwylliannol. Mae atebolrwydd yn arbennig o bwysig ar gyfer gwireddu ymrwymïadau fel Targed 3 y GBF (30x30), amcanion addasu i'r hinsawdd a nodau ehangach ar gyfer adfer natur.

Rhaid cytuno ar ddulliau i fesur canlyniadau amgylcheddol er mwyn gallu diffinio llinellau sylfaen ac asesu cynnydd at dargedau. Mae dulliau mesur cyson yn ei gwneud yn bosib mesur a gwobrwyo gwelliannau, er enghraifft trwy gredydau amgylcheddol a thalu am wasanaethau ecosystem. Mae dulliau cyson yn rhoi hyder bod buddsoddiad yn cael ei gyfeirio i sicrhau canlyniadau go iawn, gan ganiatáu i gyfleoedd gael eu nodi, eu cymharu, eu cyfuno a'u hehangu, gan helpu i gyfeirio buddsoddiad tuag at flaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

Aeddfedrwydd presennol

Mae aeddfedrwydd presennol yr amod hwn yn cael ei asesu trwy bum nodwedd (Tabl 2).

Tabl 2: Asesu aeddfedrwydd y llinell sylfaen a'r targedau

Nodwedd	Statws CMG	Cyfiawnhad
Llinellau sylfaen amgylcheddol clir ar gyfer adnoddau naturiol	Melyn	Mae gan Gymru ffynonellau tystiolaeth gref gan gynnwys Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), monitro safleoedd gwarchodedig, y Goedwig Genedlaethol, Datganiadau Ardal, Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn, data awdurdodau lleol a gwybodaeth helaeth gan eNGOs a chyrrff cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r llinellau sylfaen yn amrywio o ran eu cysondeb, eu cwrpas a'r ffordd y maen nhw'n cael eu defnyddio ar lefel prosiect.
Deall llifoedd presennol cyllid natur	Coch	Nid yw llifoedd presennol cyllid cyhoeddus a phreifat yn cael eu mapio na'u mesur yn fanwl. Er bod cyllid cyhoeddus trwy raglenni amaeth-amgylcheddol, cadwraeth ac amgylcheddol yn sylweddol, prin yw'r

		ddealltwriaeth o lefelau buddsoddi cyffredinol, bylchau cyllido a chyfraniad cyllid preifat.
Canlyniadau targed a phrosiectau clir ar sail lle ar gyfer adfer natur a gwydnwch natur	Melyn	Mae Cymru wedi sefydlu targedau a dyletswyddau cenedlaethol gan gynnwys Sero Net, targedau bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, 30x30 ac ymrwymadau o dan y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Mae Cymru hefyd yn datblygu targed ar gyfer mapio cyfleoedd gofodol. Fodd bynnag, mae troi'r uchelgeisiau hyn yn flaenoriaethau sy'n seiliedig ar le, piblinell o brosiectau ac anghenion buddsoddi yn parhau'n ddiffyg.
Amod targed clir ar gyfer cyllid natur yng Nghymru	Coch	Nid oes cyflwr targed clir ar gyfer cyllid natur yng Nghymru wedi'i sefydlu eto. Er bod uchelgeisiau ar lefel y DU yn bodoli a bod amryw o astudiaethau wedi amcangyfrif y buddsoddiad sydd ei angen, nid yw'r rhain wedi'u troi eto yn amcanion penodol i Gymru ar gyfer lefelau buddsoddi, cyfranogiad y sector preifat, cyfansoddiad y cyllid na maint y cyfleoedd sydd eu hangen.
Dulliau y cytunwyd arnynt ar gyfer mesur llinellau sylfaen, effeithiau a chanlyniadau	Coch	Nid oes gan Gymru fframwaith cynhwysfawr a chyson eto ar gyfer cydnabod a defnyddio dulliau a all gefnogi mwy nag un mecanwaith a ffrwd refeniw cyllido natur.

Cyfleoedd blaenoriaeth

Mae'r asesiad aeddfedrwydd yn nodi pedwar cyfle blaenoriaeth ar gyfer gwella:

1. Gwella dealltwriaeth o lifoedd cyllido natur a bylchau ariannu cyfredol, a gwneud defnydd gwell o setiau data amgylcheddol sy'n bod, i sefydlu llinell sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynllunio buddsoddi yn y dyfodol.
2. Defnyddio tystiolaeth, llinellau sylfaen, targedau ac offer gofodol i nodi blaenoriaethau buddsoddi ar sail lle a datblygu piblinell o gyfleoedd y gellir buddsoddi ynddynt, gyda'r angen am adnoddau a'r manteision amgylcheddol a chymdeithasol a ddisgwylir ar draws tirweddau, morluniau ac amgylcheddau trefol yng Nghymru wedi'u nodi'n glir.
3. Sefydlu amod targed cliriach ar gyfer cyllid natur yng Nghymru, gan gynnwys yr hyn sydd angen ei fuddsoddi ynddo, rôl cyllid preifat, a maint y cyfleoedd sydd eu hangen i gyflawni amcanion amgylcheddol.
4. Datblygu fframwaith cyson ar gyfer cydnabod a chymeradwyo dulliau cadarn ar gyfer diffinio llinellau sylfaen a mesur cynnydd tuag at ganlyniadau amgylcheddol.

Ymdrinnir â'r cyfleoedd hyn drwy gamau gweithredu a ddisgrifir yn y Cynllun Cyflawni.

3. Llifoedd refeniw rhagweladwy a digonol

Mae llif refeniw rhagweladwy a digonol yn hanfodol ar gyfer creu cyfleoedd y gellir buddsoddi ynddyn nhw. Mae llif refeniw hirdymor a dibynadwy yn ennyn hyder bod canlyniadau amgylcheddol yn gallu cael eu sicrhau a'u cynnal dros oes y prosiect, gan osod sylfaen i hyfywedd prosiect a denu buddsoddiad wrth roi hyder i fuddsoddwyr y cân nhw eu harian yn ôl ac elw. Gall datblygu'r galw ar draws amrywiaeth o sectorau wneud y llif refeniw'n fwy sicr a helpu i sicrhau bod costau cynnal a gwella adnoddau naturiol yn cael eu rhannu'n decach ymhlith y rhai sy'n elwa arnynt.

Gall refeniw ddod o ystod o ffynonellau, gan gynnwys grantiau, taliadau am wasanaethau ecosystemau, marchnadoedd amgylcheddol, caffael cyhoeddus, elusengarwch a mecanweithiau ariannu eraill. Mae prosiectau sy'n seiliedig ar natur yn aml yn darparu llawer o fuddion ar yr un pryd, gan greu cyfleoedd i gyfuno a chreu amrywiaeth o ffrydiau refeniw sy'n gysylltiedig â chanlyniadau fel carbon, bioamrywiaeth, ansawdd dŵr, addasu i'r hinsawdd, draenio cynaliadwy a gwrthsefyll llifogydd. Er mai polisi a rheoleiddio sy'n sbarduno llawer o'r galw am ganlyniadau amgylcheddol ar hyn o bryd, canfu Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fod sefydliadau'n buddsoddi fwyfwy o'u gwirfodd bellach mewn canlyniadau amgylcheddol i reoli risgiau natur a hinsawdd, cryfhau'r gadwyn gyflenwi, gwireddu ymrwymadau cynaliadwyedd ac ymateb i ofynion datgelu^{xxxii}. Ceir rhagor o wybodaeth am sut y gall risgiau natur a hinsawdd, fframweithiau datgelu a mentrau gosod targedau ddylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi yn Atodiad C. Gyda'i gilydd, mae sbardunau gorfodol a gwirfoddol yn creu cyfleoedd i ddatblygu modelau refeniw mwy gwydn, gan gynnwys drwy gyfuno nifer o ffrydiau refeniw, gwella hyfywedd prosiect a chefnogi mwy o amrywiaeth o ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol.

Mae'n hanfodol rheoli risg yn effeithiol i ennyn hyder buddsoddwyr a denu mwy o fuddsoddiad. Mae prosiectau sy'n seiliedig ar natur yn aml yn delio â risgiau o ran cyllido, cyflawni, rheoleiddio a'r amgylchedd, yn enwedig lle bo angen cynnal y canlyniadau dros dymor hir. Gall cyllid cyhoeddus a phreifat ategu ei gilydd wrth reoli'r risgiau hyn; er enghraifft, mae cyllid cyhoeddus yn helpu i glustogi neu leihau risgiau prosiectau sy'n darparu buddion cyhoeddus sylweddol^{xvi}. Gall pethau fel yswiriant, gwarantau, cyfalaf catalytig, cyfalaf 'y golled gyntaf' a mecanweithiau cymorth refeniw wella proffil risg-elw buddsoddiad a chynyddu hyfywedd prosiectau amgylcheddol. Er enghraifft, cynlluniwyd buddsoddiad 'colled gyntaf' Defra o £30m yng Nghronfa Effaith Natur y DU i ddadrisgio buddsoddiad a chynyddu cyfranogiad y sector preifat. Dros amser, gall trefniadau rhannu risg effeithiol helpu i ryddhau cyllid cymysg, lleihau costau cyflenwi a helpu i gynyddu cyllid natur.

Aeddfedrwydd presennol

Mae aeddfedrwydd presennol yr amod hwn yn cael ei asesu trwy bum nodwedd (Tabl 3).

Tabl 3: Asesu aeddfedrwydd ffrydiau refeniw

Nodwedd	Statws CMG	Cyfiawnhad
Yr amrywiaeth o ffrydiau refeniw ar gyfer canlyniadau amgylcheddol a'r galw amdanynt	Melyn	Daw'r galw am ganlyniadau amgylcheddol i'r amlwg trwy nifer o ffynonellau, gan gynnwys carbon, lliniaru maetholion, rheoli dŵr, gofynion cynllunio, buddsoddiad corfforaethol gwirfoddol a rhwymedigaethau cydymffurfio amgylcheddol. Mae diddordeb corfforaethol cynyddol mewn risgiau natur, gwydnwch cadwyni cyflenwi a gofynion datgelu yn creu cyfleoedd buddsoddi newydd. Fodd bynnag, mae'r galw yn dal i fod wedi'i grynhoi mewn nifer gymharol fach o sectorau, ac nid yw llawer o ffynonellau refeniw a marchnadoedd posibl eto yn ddigon aeddfed nac yn ddigon mawr.
Sicrwydd refeniw hirdymor	Coch	Er y gall cynlluniau cyllido cyhoeddus fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddarparu refeniw parhaus, mae signalau galw hirdymor, ymrwymadau prynwyr a ffrydiau incwm ar gontract yn parhau i fod yn brin ar gyfer y rhan fwyaf o ganlyniadau amgylcheddol, yn enwedig ar gyfer eu cynnal yn yr hirdymor.
Rheolau clir ar gyfuno ffrydiau refeniw a sut y bydd cyllid cyhoeddus-preifat yn rhyngweithio (cyfuno, pentyrru ac ychwanegedd)	Coch	Mae cyfleoedd yn bodoli i gyfuno refeniw o nifer o ganlyniadau amgylcheddol, ond mae canllawiau ac esboniadau polisi ar gyfuno, pentyrru ac ychwanegedd yn parhau i gael eu datblygu hefyd ar lefel y DU. Mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ynghylch sut y bydd cyllid natur yn rhyngweithio â thaliadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a ffrydiau cyllido cyhoeddus eraill.
Mecanweithiau rhannu risg a dadrisgio effeithiol	Coch	Ar hyn o bryd mae gan Gymru ond ychydig o warantau natur-benodol, cynhyrchion yswiriant, cyfalaf catalytig neu fecanweithiau 'y golled gyntaf'. Mae'r hyn a geir ar hyn o bryd gan fwyaf yn benodol i brosiectau ac nid ydynt eto wedi'u datblygu i fod yn system o gymorth aeddfed ar gyfer cyllid natur.
Cyllid cymysg	Coch	Mae potensial cryf yn bodoli i gyfuno cyllid cyhoeddus a phreifat, a cheir enghreifftiau'n codi yn dod i'r amlwg ledled y DU. Fodd bynnag, nid yw strwythurau, trefniadau llywodraethu a modelau cyflawni cyson ar gyfer cyllid cymysg wedi'u creu ar raddfa fawr yng Nghymru eto.

Cyfleoedd blaenoriaeth

Mae'r asesiad aeddfedrwydd yn nodi tri chyfle blaenoriaeth ar gyfer gwella:

1. Cryfhau a chynyddu'r amrywiaeth o alw am ganlyniadau amgylcheddol, a chynyddu sicrwydd refeniw hirdymor, gan adeiladu ar y diddordeb cynyddol mewn gwydnwch busnesau, ymrwymïadau cynaliadwyedd, gofynion rheoleiddio a'r manteision ehangach a geir trwy adfer natur.
2. Datblygu fframwaith clir ar gyfer cyfuno ffrydiau refeniw a chyllid cyhoeddus, gan gynnwys dulliau o gyfuno, pentyrru ac ychwanegedd.
3. Datblygu dulliau rhannu risg a dadrisgio, gan gynnwys gwarantau, cyfalaf catalytig a mecanweithiau eraill i helpu i ddenu buddsoddiad preifat.

Ymdrinnir â'r cyfleoedd hyn drwy gamau gweithredu a ddisgrifir yn y Cynllun Cyflawni.

4. Mecanweithiau ariannu a seilwaith ategol

Mae mecanweithiau a seilwaith ategol yn cysylltu'r galw am ganlyniadau amgylcheddol â'r rhai sy'n gallu eu cyflawni. Gyda'i gilydd, maent yn darparu llwybrau ymarferol ar gyfer sbarduno cyllid a'i gyfeirio at adnoddau naturiol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yn gyson fod effeithiolrwydd llawer o fecanweithiau cyllido a seilwaith ategol yn dibynnu yn y pen draw ar alw clir a hirdymor am ganlyniadau amgylcheddol.

Gellir darparu cyllid natur trwy ystod o fecanweithiau, bob un yn addas i wahanol ganlyniadau a ffynonellau cyllid. Mae'r enghreifftiau a nodwyd o gatalog atebion BIOFIN^{xxxiii} a thystiolaeth OECD am offer cyllido bioamrywiaeth ^{xxxiv} a allai fod fwyaf effeithiol i Gymru yn cynnwys grantiau a chymorthdaliadau cyhoeddus, cronfeydd buddsod effaith, buddsoddi mewnol, cyllid elusennol, tâl am wasanaethau ecosystemau, marchnadoedd amgylcheddol, cymhellion a datgymhellion cyllidol a dulliau cyllido cymysg. Ceir disgrifiad o'r mecanweithiau sy'n berthnasol i Gymru yn Atodiad D. Ni fydd unrhyw fecanwaith ar ei ben ei hun yn ddigon i gyflawni'r raddfa a'r ystod o ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol sydd eu hangen. Yn hytrach, bydd Cymru yn defnyddio portffolio, gyda sawl mecanwaith yn gweithredu yr un pryd i ategu ei gilydd ar draws ein hamgylcheddau gwledig, trefol ac arfordirol.

Mae seilwaith ategol yn ei gwneud yn bosib i fecanweithiau cyllido weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae enghreifftiau'n cynnwys cofrestri, platfformau masnachu a broceru, contractau a chytundebau cyfreithiol safonol, metrigau a methodolegau, systemau data, offer agregu prosiectau a threfniadau llywodraethu eraill sy'n ennyn hyder a chysondeb. Gyda'i gilydd, mae'r systemau hyn yn helpu i gysylltu prynwyr, buddsoddwyr a chyflenwyr canlyniadau amgylcheddol, lleihau costau trafodion a chefnogi buddsoddiad ar raddfa fawr. Dylai seilwaith ategol hefyd fod yn hygyrch ac yn gymesur, gan alluogi sefydliadau o wahanol feintiau, gan

gynnwys ffermydd llai a rheolwyr tir, gyfranogi. Ceir disgrifiad o'r seilwaith sy'n berthnasol i Gymru yn Atodiad E.

Er mwyn i gyllid natur gyfrannu at atal a gwrthdroi dirywiad ein hadnoddau naturiol, dylai mecanweithiau cyllido weithredu mewn ffordd gyson â'r hierarchaeth liniaru. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y dylai mecanweithiau cyllido yng Nghymru adlewyrchu blaenoriaethau polisi Cymru, yn enwedig o ran defnyddio'r hierarchaeth liniaru. Mae'r hierarchaeth liniaru yn blaenoriaethu osgoi, lleihau a chywiro niwed amgylcheddol cyn ystyried 'gwrthbwysu' (prynu credydau carbon) a 'chydbwysu' (darparu tir am dir). Mae enghreifftiau'n cynnwys Polisi Cynllunio Cymru, arferion ffermio a physgodfeydd cynaliadwy, amaethyddiaeth adfywiol, stiwardiaeth dŵr a buddsoddi mewnol o fewn cadwyni cyflenwi corfforaethol. Dim ond effeithiau na ellir mynd i'r afael â nhw yn y ffynhonnell y dylid eu rheoli trwy fecanweithiau fel marchnadoedd amgylcheddol, cronfeydd amgylcheddol neu raglenni buddsoddi wedi'u targedu. Ni all cyllid natur gyfrannu at wrthdroi dirywiad ar raddfa system ond pan fydd buddsoddiad yn sicrhau gwelliannau y tu hwnt i gyflwr llinell sylfaen yr adnodd naturiol.

Aeddfedrwydd presennol

Mae aeddfedrwydd presennol yr amod hwn yn cael ei asesu trwy chwe nodwedd (Tabl 4).

Tabl 4: Asesu aeddfedrwydd mecanweithiau a seilwaith

Nodwedd	Statws CMG	Cyfiawnhad
Cyfleoedd cyllido natur y gellir eu nodi a buddsoddi ynddynt	Melyn	Mae cyfleoedd eisoes yn bodoli mewn bioamrywiaeth, carbon, dŵr, lleihau maetholion, gwrthsefyll llifogydd a chanlyniadau amgylcheddol eraill. Mae Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn, safleoedd Naturfa, safleoedd gwarchodedig, partneriaethau dalgylch, eNGOs, cyfleustodau a rheolwyr tir yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer adnabod cyfleoedd buddsoddi. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd hyn eto yn cael eu blaenoriaethu, eu pecynnu, eu costio, eu cyfuno na'u cysylltu â ffynonellau cyllid, mewn ffordd gyson. Mae hynny'n lleihau eu hatyniad i fuddsoddwyr a chyllidwyr. Bydd y mapiau cyfleoedd gofodol a thargedau bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 yn gwella hynny ymhen amser.
Mecanweithiau cyllido gweithredol ar gyfer canlyniadau amgylcheddol	Melyn	Mae amrywiaeth o fecanweithiau eisoes yn bodoli neu'n cael eu datblygu yng Nghymru, gan gynnwys grantiau cyhoeddus, taliadau amaeth-amgylcheddol, niwtraliaeth maetholion, marchnadoedd carbon, elusengarwch a threialon marchnadoedd amgylcheddol. Fodd bynnag,

		mae'r rhan fwyaf o feganweithiau yn parhau'n anaeddfed, yn dameidiog neu ddim eto'n ddigon mawr.
Mecanweithiau cyfranogi gan y sector preifat	Melyn	Mae'r diddordeb gan y sector preifat i gymryd rhan yn cynyddu, yn enwedig mewn ymateb i risgiau natur a hinsawdd, gwydnwch y cadwyni cyflenwi a fframweithiau datgelu. Mae enghreifftiau sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys mentrau buddsoddi mewnol a ddatblygwyd drwy'r fenter Rhwydweithiau Menter Tirwedd (LENs) yn y De-orllewin a buddsoddiad Network Rail mewn prosiectau dalgylch a natur. Fodd bynnag, ychydig o fodelau cyfranogi sydd wedi ennill eu plwyf yng Nghymru ar raddfa fawr ac mae'r galw corfforaethol yn parhau i fod yn gymharol fach.
Cofrestri, platfformau masnachu a seilwaith cyfuno prosiectau	Coch	Nid oes gan Gymru isadeiledd aeddfed eto i gefnogi cyllid natur ar raddfa fawr. Er bod rhai prosiectau yng Nghymru eisoes yn defnyddio ystod o safonau, cofrestri a systemau ategol Prydeinig, gan gynnwys y Cod Carbon Coetir a'r Cod Mawndir, mae cofrestri, platfformau masnachu, dulliau cyfuno prosiectau a systemau data ategol yn cael eu datblygu i raddau helaeth fesul canlyniad ac nid ydynt eto wedi'u haddasu, eu hintegreiddio na'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson i ateb anghenion Cymru.
Cytundebau cyfreithiol a fframweithiau contract safonol	Melyn	Mae templedi a thrywyddau'n dod i'r amlwg trwy farchnadoedd natur a mentrau cyllid amgylcheddol y DU, gan gynnwys cytundebau safonol ar gyfer credydau amgylcheddol a rheolaeth hirdymor ar gynefinoedd. Fodd bynnag, nid oes gan Gymru unrhyw beth tebyg i'r cyfamodau cadwraeth a geir yn Lloegr, na chyfres gyson o fframweithiau contract y gellir eu defnyddio.
Defnyddio'r hierarchaeth liniaru	Melyn	Mae'r hierarchaeth liniaru wedi hen ennill ei phlwyf o fewn polisi cynllunio ac amgylcheddol, gan gynnwys wrth ddatblygu Manteision Net i Fioamrywiaeth. Fodd bynnag, nid yw'n eglur eto sut y dylid ei defnyddio ar draws mecanweithiau cyllido natur ehangach, yn enwedig mewn perthynas â buddsoddi preifat, marchnadoedd amgylcheddol a threfniadau cyllido gwirfoddol, ac o fewn amgylcheddau morol.

Cyfleoedd blaenoriaeth

Mae'r asesiad aeddfedrwydd yn nodi tri chyfle blaenoriaeth ar gyfer gwella:

1. Ehangu a chryfhau mecanweithiau cyllido a modelau cyfranogi'r sector preifat ar gyfer canlyniadau amgylcheddol, gan adeiladu ar gyllid cyhoeddus

presennol, marchnadoedd amgylcheddol, tâl am wasanaethau ecosystem, elusengarwch a dulliau buddsoddi newydd y sector preifat.

2. Datblygu'r seilwaith ategol sydd ei angen i gyllid natur weithredu'n effeithlon ar raddfa fawr, gan gynnwys cofrestri, platfformau, cyfuno prosiectau, cytundebau cyfreithiol, systemau data a threfniadau llywodraethu cysylltiedig.
3. Ymgorffori'r hierarchaeth liniaru o fewn mecanweithiau cyllido, gan sicrhau bod buddsoddiad yn cyfrannu at wella ac adfer amgylcheddol go iawn yn hytrach na dim ond gwneud iawn am ddifrod.

Ymdrinnir â'r cyfleoedd hyn drwy gamau gweithredu a ddisgrifir yn y Cynllun Cyflawni.

5. Safonau, sicrwydd a mesurau diogelu cadarn

Mae safonau, sicrwydd a mesurau diogelu cadarn yn hanfodol i sicrhau bod canlyniadau amgylcheddol yn gredadwy, yn gyson ac yn ddibynadwy. Gyda'i gilydd, maent yn ennyn hyder bod gwelliannau'n rhai go iawn, yn fesuradwy ac yn cael eu gwneud yn unol â'r bwriad, gan leihau ansicrwydd a chefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae gwella cysondeb a thryloywder o fewn prosiectau a gweithgareddau yn ei gwneud yn haws eu cymharu a'u cyfuno ac yn hwb i'w rhyngweithrediad. Bydd hynny'n help i ddenu mwy o fuddsoddiad mewn adnoddau naturiol. Mae gan y llywodraeth rôl o ran pennu safonau, sicrwydd a mesurau diogelu.

Mae safonau yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer mesur a rheoli canlyniadau amgylcheddol ac adrodd arnynt. Mae safonau yn sefydlu'r egwyddorion, y metrigau a'r methodolegau cytûn a ddefnyddir i asesu gwelliant amgylcheddol, gan helpu i greu maes chwarae gwastad ar draws prosiectau a mecanweithiau ariannu. Mae gweithio mewn ffordd gyson yn helpu i sicrhau bod gwelliannau yn cael eu hasesu yn yr un modd ym mhob prosiect a gweithgaredd, gan ennyn hyder cyllidwyr, rheoleiddwyr, rheolwyr tir a chymunedau. Dylai'r trefniadau sicrhau bod cyllid natur yn gallu gweithredu gyda systemau ehangach y DU a gweddill y byd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Defra a'r llywodraethau datganoledig eraill drwy Raglen Safonau Buddsoddi mewn Natur y BSI i'w helpu i ddatblygu fframwaith cyffredin o egwyddorion a safonau ar gyfer buddsoddi mewn natur ledled y DU.

Darperir sicrwydd trwy systemau monitro, adrodd a dilysu (MRV) i brofi bod canlyniadau amgylcheddol yn cael eu sicrhau a'u cynnal. Gall fframweithiau sicrwydd gynnwys prosesau dilysu, cadarnhau ac adolygu proffesiynol sy'n ennyn hyder bod honiadau amgylcheddol yn ddilys a bod canlyniadau'n cael eu mesur yn gyson dros amser.

Mae mesurau diogelu, wedi'u cefnogi gan drefniadau cydymffurfio a gorfodi effeithiol, yn helpu i sicrhau bod cyllid natur yn gwneud gwelliant go iawn ac yn osgoi niwed anfwriadol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod canlyniadau'n

ychwanegol, yn wydn a ddim yn cael eu cyfrif ddwywaith. Mae mecanweithiau tryloyw fel cofrestri ac adroddiadau cyhoeddus yn ennyn hyder y cyhoedd ac yn sicrhau atebolrwydd trwy ei gwneud yn bosib olrhain a gwirio canlyniadau a thrafodion dros amser. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn helpu i leihau costau trafodion a diwydrwydd dyladwy, hwyluso cymharu, ennyn hyder y farchnad a chreu amgylchedd gweithredu mwy cyson i brynwyr, buddsoddwyr a chyflenwyr.

Wrth i gyllid natur ddatblygu, dylid defnyddio monitro a gwerthuso hefyd i asesu effeithiolrwydd a chofnodi'r gwersi a ddysgir. Drwy hynny, gall safonau, methodolegau a mecanweithiau cyllido esblygu dros amser, gan sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol wrth i dystiolaeth, polisi ac ymarfer ddatblygu.

Aeddfedrwydd presennol

Mae aeddfedrwydd presennol yr amod hwn yn cael ei asesu trwy chwe nodwedd (Tabl 5).

Tabl 5: Asesu aeddfedrwydd safonau, sicrwydd a mesurau diogelu

Nodwedd	Statws CMG	Cyfiawnhad
Egwyddorion a safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyllido natur	Coch	Mae Cymru wrthi'n cyfrannu at Raglen Safonau Buddsoddi mewn Natur y BSI a gwaith ehangach y DU ar safonau. Mae Cymru wedi cyhoeddi hefyd Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy ar gyfer Adnoddau Naturiol. Fodd bynnag, mae angen penderfynu ar fersiwn derfynol a'u rhoi ar waith yn gyson ledled Cymru.
Metrigau a methodolegau y cytunwyd arnynt ar gyfer canlyniadau amgylcheddol	Coch	Mae methodolegau yn bodoli ar gyfer rhai canlyniadau, gan gynnwys lleihau carbon a maetholion. Er enghraifft, mae sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru yn aml yn defnyddio'r Metrig Bioamrywiaeth Statudol a ddatblygwyd ar gyfer Lloegr. Mae hynny'n dangos gwerth defnyddio dulliau cyson ar draws awdurdodaethau. Fodd bynnag, parheir i ddatblygu meysydd allweddol fel Manteision Net i Fioamrywiaeth, dulliau cyllido natur ehangach sy'n esgor ar lawer o fuddion a dulliau cyson o fesur canlyniadau amgylcheddol.
Gofynion cadarn yr MRV a phrosesau sicrwydd	Melyn	Mae prosesau sicrwydd cryf yn bodoli mewn rhai sectorau, gan gynnwys cynlluniau lliniaru maetholion a safonau carbon fel Cod Carbon Coetir a'r Cod Mawndir. Mae ar reoleiddwyr hefyd angen tystiolaeth i gefnogi canlyniadau amgylcheddol mewn ystod o gyd-destunau. Fodd bynnag, nid oes fframwaith cyson ar gyfer dilysu, gwirio a rhoi sicrwydd sy'n gweithredu ar draws yr holl fecanweithiau cyllido natur a chanlyniadau amgylcheddol yng Nghymru.
Mecanweithiau tryloywder	Coch	Nid oes gan Gymru system gyson o gofrestri, adroddiadau cyhoeddus ac olrhain trafodion eto i gefnogi cyllido natur ar raddfa fawr. Mae'r hyn sy'n

(cofrestri ac adrodd)		bod ar hyn o bryd yn ymwneud yn benodol i raddau helaeth â mecanweithiau ar lefel y DU, neu'n fersiynau gan awdurdodaethau eraill yn hytrach na rhai sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer anghenion cyllido natur Cymru.
Trefniadau diogelu, cydymffurfio a gorfodi	Melyn	Mae rheoliadau amgylcheddol, mesurau rheoli cynllunio a goruchwyliaeth reoleiddio yn cynnig sylfaen bwysig, a chydabyddir yn eang egwyddorion uniondeb fel ychwanegedd, gwydnwch a thryloywder. Fodd bynnag, mae mesurau diogelu, gofynion cydymffurfio a threfniadau gorfodi sy'n benodol i gyllido natur yn parhau'n dameidiog ac nid oes diffiniad cyson ohonynt eto ar draws mecanweithiau.
Monitro, gwerthuso a dysgu hyblyg	Melyn	Mae monitro a gwerthuso yn elfennau annatod o reolaeth, ymchwil a pholisi cyhoeddus amgylcheddol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes fframwaith cydgysylltiedig eto ar gyfer asesu effeithiolrwydd mecanweithiau cyllido natur a throsglwyddo'r gwersi a ddysgir yn systematig i bolisi, safonau a datblygu marchnadoedd.

Cyfleoedd blaenoriaeth

Yn wahanol i'r amodau blaenorol, sy'n canolbwyntio ar greu'r sylfeini ar gyfer cyllido natur, mae safonau, sicrwydd a mesurau diogelu yn ennyn yr hyder sydd ei angen i'r amodau hynny allu gweithredu'n effeithiol. Gan adeiladu ar y cyfleoedd a ddisgrifir yn rhannau eraill y Strategaeth, mae'r asesiad aeddfedrwydd yn nodi pum blaenoriaeth ar gyfer sicrhau bod canlyniadau amgylcheddol yn gredadwy, yn dryloyw ac yn ddibynadwy:

1. Sefydlu egwyddorion, safonau, metrigau a methodolegau cytûn ar gyfer cyllido natur, gan adeiladu ar fentrau ar lefel y DU.
2. Diffinio trefniadau monitro, adrodd, dilysu a chadarnhau cadarn.
3. Datblygu mesurau diogelu a threfniadau cydymffurfio a gorfodi clir.
4. Gwellu tryloywder trwy gofrestri, systemau adrodd ac olrhain trafodion.
5. Ymgorffori monitro, gwerthuso a dysgu hyblyg ar draws mecanweithiau cyllido natur, er mwyn i drefniadau allu esblygu mewn ymateb i dystiolaeth a phrofiad ymarferol newydd.

Adran 3: Gweithredu: Rolau, Llywodraethiant a Chyflawni

Nododd Adran 2 yr amodau sydd eu hangen i gynyddu cyllid natur a'r cyfleoedd blaenoriaeth ar gyfer eu cryfhau. Mae adran 3 yn nodi'r llywodraethiant, rolau, cyfrifoldebau a chymau gweithredu sydd eu hangen i sefydlu a chryfhau'r amodau hyn, er mwyn i gyllid natur allu llifo a helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth.

Rolau a chyfrifoldebau

Mae system cyllid natur sy'n gweithredu'n dda yn debygol o ddibynnu ar sefydliadau arbenigol sy'n cyflawni swyddogaethau gwahanol yn hytrach na sefydliadau unigol sy'n ceisio cyflawni'r broses gyfan o'r dechrau i'r diwedd.

Mae gan lywodraethau a chyrrff cyhoeddus rôl ganolog wrth greu'r amodau, hynny wrth i fusnesau, buddsoddwyr, cyfleustodau, rheolwyr tir a sefydliadau amgylcheddol arloesi, buddsoddi a chydweithio i ddatblygu a chynnig dulliau ar gyfer cyllido natur. Mae cydweithredu, rhannu gwybodaeth a chymunedau ymarfer yn help mawr yn hyn o beth. Mae'r ystod eang o rolau a chyfrifoldebau a nodwyd gyda rhanddeiliaid wedi'u symleiddio i set o swyddogaethau craidd (Tabl 6).

Tabl 6: Swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd.


Swyddogaeth	Cyfrifoldeb
Llywodraeth Cymru	Gosod cyfeiriad strategol; sicrhau bod polisiâu, targedau ac amodau galluogi yn gyson; cymeradwyo safonau a methodolegau; helpu i ddatblygu llywodraethiant a seilwaith ategol.
Cyllidwyr a Buddsoddwyr	Darparu cyllid ar gyfer prosiectau a gweithgareddau sy'n rhoi'r manteision rydyn ni eu heisiau, gan greu galw am fuddsoddiad mewn adnoddau naturiol.
Yswirwyr a Rheolwyr Risgiau	Rheoli, trosglwyddo a rhannu risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a buddsoddiadau cyllid natur.
Cyfryngwyr a Gweithredwyr Mekanweithiau	Cysylltu'r cyflenwad â'r galw; helpu i ddatblygu a chyfuno prosiectau; hwyluso trafodion a rhannu gwybodaeth; a datblygu a rhedeg mecanweithiau cyllido.
Datblygu Prosiectau	Llunio, strwythuro a pharatoi prosiectau i ddenu buddsoddiad a sicrhau canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol.
Monitro a Dilysu	Mesur, adrodd a dilysu amodau sylfaenol a chanlyniadau, gan ddarparu sicrwydd annibynnol bod canlyniadau a chredydau amgylcheddol wedi'u cyflawni.
Cynghorwyr proffesiynol	Darparu arbenigedd ecolegol, cyfreithiol, ariannol a rheoli tir i helpu i ddatblygu a chynnal gweithgareddau cyllido natur, a rhoi sicrwydd mewn perthynas â nhw.
Cyrrff Rheoleiddio a Goruchwyllo	Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau, rheolau a gofynion rheoleiddio, a goruchwyllo'r gweithredu a chyflawni.
Ymchwilwyr a Darparwyr Tystiolaeth	Cynhyrchu tystiolaeth a helpu i fireinio safonau, metrigau, mecanweithiau a dulliau cyflawni yn barhaus.

Cyflenwyr a Phartneriaid Cyflenwi	Rheoli asedau amgylcheddol ar dir a môr a darparu gwasanaethau ecosystem a chanlyniadau amgylcheddol yn gyfnewid am daliadau neu fuddsoddiad.
Cymunedau a rhanddeiliaid	Helpu i lunio, cyd-ddylunio, cyflawni a goruchwyllo gweithgarwch cyllido natur, gan sicrhau bod gwybodaeth, blaenoriaethau a manteision lleol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau drwy gyfranogiad ystyrlon.

Llywodraethiant

Mae llywodraethiant yn darparu'r strwythurau, rolau, prosesau penderfynu a'r atebolrwydd sydd eu hangen i sicrhau bod cyllid natur yn sicrhau canlyniadau a buddion amgylcheddol a chymdeithasol go iawn i gymunedau^{xxxv}. Mae llywodraethiant effeithiol yn helpu i gydlyn gweithredoedd ar draws sefydliadau, gan feithrin ymddiriedaeth, sicrhau uniondeb, rheoli risgiau, cefnogi tryloywder a sicrhau bod buddsoddiad yn dod â gwerth i'r cyhoedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gyllido natur gan fod angen amser yn aml i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol, a hynny gyda chyfranogiad nifer o sefydliadau a chan ddibynnu ar hyder y cyhoedd bod canlyniadau'n real, yn ychwanegol ac yn barhaol. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd goruchwyliaeth glir, sefydliadau dibynadwy a chyfrifoldebau clir er mwyn ennyn hyder yn y mecanweithiau cyllido natur sy'n cael eu datblygu.

Mae llywodraethiant yn sail i bob un o'r pum amod a ddisgrifir yn Adran 2. Mae'n helpu i sicrhau bod fframweithiau polisi a rheoleiddio yn alinio â'i gilydd, bod tystiolaeth yn ddibynadwy, bod refeniw a mecanweithiau yn gweithredu'n deg, a bod safonau a mesurau diogelu yn cael eu cymhwyso mewn ffordd gyson. Wrth i gyllid natur ddatblygu, dylai llywodraethiant gefnogi hefyd dysgu ac addasu, gan ganiatáu i ddulliau esblygu mewn ymateb i dystiolaeth a phrofiad. Mae Ffigur 5 yn cynnig model llywodraethu dangosol a set o egwyddorion llywodraethu ar gyfer cyllido natur yng Nghymru.



Ffigur 4: Diagram sy'n dangos sut y gall llywodraethiant gydlynw rolau a chyfrifoldeb. Mae'r blychau gwyrdd yn cynnig model ac egwyddorion llywodraethu dangosol ar gyfer cyllido natur yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yn darparu cyfeiriad strategol a swyddogaethau galluogi, gan gynnwys polisi a rheoleiddio, safonau, awdurdod, sicrwydd a rhannu risg. Mae rheolwyr tir a môr, cyfryngwyr, cyllidwyr a chymunedau yn helpu i ddenu cyllid a sicrhau canlyniadau. Mae gwaith ymchwil, monitro a rheoli hyblyg yn darparu adborth i gefnogi dysgu, atebolrwydd a gwelliant parhaus ar draws y system.

Dylai llywodraethu effeithiol ar gyllid natur:

- roi goruchwyliaeth annibynnol ar berfformiad systemau, canlyniadau amgylcheddol ac uniondeb y farchnad;
- helpu i oruchwyllo mecanweithiau a marchnadoedd cyllido sy'n dod i'r amlwg;
- ennyn hyder trwy gyfrifoldebau, tryloywder ac atebolrwydd clir;
- lleihau costau trafodion a diwydrwydd dyladwy trwy reolau cyson a gwybodaeth ddibynadwy;
- galluogi rhannu data'n briodol a rheoli gwybodaeth â thrydydd partïon dibynadwy lle bo angen; a
- cefnogi monitro, gwerthuso a rheoli hyblyg wrth i dystiolaeth ac ymarfer ddatblygu.

Mae cyllido natur yn digwydd ar lefelau Cymru, y DU a rhyngwladol. Er bod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol o ran creu polisiâu ac amodau galluogi sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ac adnoddau naturiol Cymru, weithiau'n mae'n fwy effeithiol darparu rhai agweddau ar gyllido natur ar lefel y DU ac weithiau dyna'r unig ffordd sydd ar gael. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle mae pwerau wedi'u cadw yn ôl i Lywodraeth y DU, gan gynnwys rhai agweddau ar reoleiddio ariannol, datgeliadau corfforaethol a safonau'r farchnad. Trwy alinio â'r fframweithiau

ehangach hyn, gellid lleihau beichiau cydymffurfio, ennyn hyder buddsoddwyr a chael at ffynonellau galw a buddsoddi mwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfrannu at ddatblygu trefniadau llywodraethu newydd yn y DU ar gyfer cyllid natur, gan helpu i lunio trywyddau cyffredin o ran safonau, sicrwydd, tryloywder ac uniondeb y farchnad wrth sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau ac amgylchiadau Cymru.

Cynllun cyflawni

Mae'r cynllun cyflawni yn cyfuno camau gweithredu â swyddogaethau a dilyniant dangosol. Mae'n darparu map ffordd ar gyfer creu'r amodau sydd eu hangen i gynyddu cyllid natur yng Nghymru. Egwyddor allweddol y cynllun cyflawni yw y dylai cyfleoedd buddsoddi gael eu sbarduno gan angen amgylcheddol. Mae hyn yn golygu deall yn well y canlyniadau y mae angen i ni eu sicrhau, ble mae angen gweithredu fwyaf a'r adnoddau sydd eu hangen i'w sicrhau, cyn datblygu piblinell o gyfleoedd y gellir buddsoddi ynddynt sy'n gallu denu cyllid. Gyda'i gilydd, nod y camau gweithredu hyn yw bod system cyllido natur Cymru'n newid o fod yn system newydd i fod yn system aeddfed a dibynadwy y gellir buddsoddi ynddi.

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn y pen draw yn ôl i ba raddau y mae cynyddu'r buddsoddiad mewn adnoddau naturiol yn sicrhau pedwar canlyniad Strategaeth Cyllid Natur Cymru (gweler Ffigur 1). Er mwyn sicrhau'r canlyniadau hyn, rhaid parhau i gryfhau'r amodau a ddisgrifir yn Adran 2, ynghyd â'r safonau uchel o uniondeb amgylcheddol, tryloywder ac atebolrwydd. Gall dangosyddion gynnwys cynnydd tuag at dargedau amgylcheddol, cyllid a ysgogir, cyfranogiad ar draws sectorau, nifer sy'n manteisio ar fecanweithiau cyllido a thystiolaeth bod buddsoddiadau'n sicrhau canlyniadau mesuradwy, ychwanegol a pharhaol.

Caiff ei rhoi ar waith fesul cam ac mewn ffordd hyblyg, gan gydnabod bod cyllid natur yn faes newydd sy'n esblygu'n gyflym. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro trwy ddangosyddion cyflawni, buddsoddi a chanlyniadau amgylcheddol, gyda monitro, gwerthuso ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cofnodi'r gwersi a ddysgir ac yn bwydo gwelliannau. Bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu a'i mireinio dros amser i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn effeithiol, yn ymateb i dystiolaeth newydd ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae llawer agwedd ar gyllido natur yn digwydd ar lefelau Cymru, y DU a rhyngwladol. Felly, bydd rhai camau gweithredu yn dibynnu ar gydweithio â Llywodraeth y DU, rheoleiddwyr a chyrff safonau, yn enwedig mewn perthynas â datgelu, safonau, uniondeb y farchnad, rheoleiddio ariannol a chreu galw. Bydd Cymru'n parhau i gyfrannu at agweddau newydd Prydeinig at gyllido natur ac i alinio â nhw, gan gynnwys safonau, rhoi sicrwydd, datgelu, parodrwydd ar gyfer buddsoddiad a chyllid cymysg, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau, deddfwriaeth ac adnoddau naturiol Cymru.

Cam 1 (2026 - 2027): Creu'r amodau galluogi. Mae Cam 1 yn canolbwyntio ar sefydlu'r polisi, tystiolaeth, gallu ac amodau cyllido sydd eu hangen i ddenu mwy o fuddsoddi mewn seilwaith naturiol (Amcan 1).

Rhif	Gweithred	Canlyniad(au)	Prif swyddogaeth
1	Cyhoeddi Strategaeth Cyllid Natur Cymru a sefydlu rhaglen cyllido natur ar draws y llywodraeth	Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol	Llywodraeth Cymru
2	Adolygu polisi, rheoliadau a gwariant cyhoeddus i nodi cyfleoedd ar gyfer cynyddu buddsoddiad mewn canlyniadau amgylcheddol	Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol	Llywodraeth Cymru
3	Sefydlu tystiolaeth, llinellau sylfaen ac anghenion cyllido i nodi blaenoriaethau buddsoddi ar sail lle a datblygu piblinell o gyfleoedd ar draws amgylcheddau gwledig, arfordirol a threfol	Adfer yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol; Manteision cymunedol a lleol	Ymchwilwyr a Darparwyr Tystiolaeth
4	Gwella ein dealltwriaeth o ddatgeliadau sy'n gysylltiedig â natur a'r hyn sy'n sbarduno'r galw yn y sector preifat a fframweithiau adrodd sy'n dod i'r amlwg yn y DU	Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol	Ymchwilwyr a Darparwyr Tystiolaeth
5	Cyhoeddi canllawiau ar gyfuno cyllid cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys cymysgu, pentyrru ac ychwanegedd	Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol;	Llywodraeth Cymru
6	Meithrin galluoedd, cydweithio a chymunedau ymarfer	Manteision cymunedol a lleol	Cymunedau a rhanddeiliaid
7	Treialu mecanweithiau cyllido â blaenoriaeth a datblygu piblinellau o brosiectau sy'n barod ar gyfer buddsoddiad	Adfer yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau; Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol; Manteision cymunedol a lleol	Cyfryngwyr a Gweithredwyr Mecanweithiau; Cymunedau a rhanddeiliaid

Cam 2 (2028 - 2030): Adeiladu'r systemau. Mae Cam 2 yn canolbwyntio ar ddatblygu'r llywodraethiant, mecanweithiau a'u seilwaith ategol er mwyn i fuddsoddiad allu llifo (Amcan 2).

Rhif	Gweithred	Canlyniad(au)	Prif swyddogaeth
8	Ehangu a mireinio mecanweithiau cyllido â blaenoriaeth yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd mewn cynlluniau peilot	Adfer yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau; Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol;	Cyfryngwyr a Gweithredwyr Mecanweithiau; Cymunedau a rhanddeiliaid
9	Sicrhau cysondeb rhwng gwariant cyhoeddus a rhaglenni cyllido â chanlyniadau amgylcheddol er lles adnoddau naturiol	Adfer yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau; Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol	Llywodraeth Cymru
10	Datblygu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi cyllid natur: cofrestri, cytundebau cyfreithiol, systemau data, platfformau	Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol	Llywodraeth Cymru; Cyfryngwyr a Gweithredwyr Mecanweithiau
11	Datblygu fframwaith ar gyfer cytuno a chymeradwyo safonau, metrigau, MRV (mesur, adrodd a dilysu) a mesurau diogelu	Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol	Llywodraeth Cymru; Rheoleiddwyr a Chyrff Goruchwyllo
12	Datblygu cyllid cymysg, contractio hirdymor a dulliau rhannu risg	Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol	Cyllidwyr a Buddsoddwyr; Yswirwyr a Rheolwyr Risg
13	Datblygu sbardunau polisi a galw'r farchnad: caffael, datgeliadau, cymhellion, mesurau cyllidol	Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol	Llywodraeth Cymru
14	Cryfhau trefniadau llywodraethu, tryloywder a goruchwyllo i gynnal hyder a gwerth cyhoeddus	Adfer yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol; Manteision cymunedol a lleol	Rheoleiddwyr a Chyrff Goruchwyllo; Llywodraeth Cymru

Cam 3 (2030 ymlaen) Cynyddu ac ymwreiddio. Mae Cam 3 yn canolbwyntio ar sbarduno buddsoddiad drwy ledaenu dulliau llwyddiannus ac ymgorffori buddsoddiad mewn seilwaith naturiol ym mhrosesau penderfynu'r prif ffrwd ledled Cymru (Amcan 3).

Rhif	Gweithred	Canlyniad(au)	Prif swyddogaeth
15	Ehangu dulliau ariannu aml-fantais ar draws amgylcheddau gwledig, arfordirol a threfol	Adfer yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau; Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol; Manteision cymunedol a lleol	Pawb.
16	Ehangu mecanweithiau cyllido a modelau cyfranogiad sector preifat llwyddiannus	Adfer yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau; Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol	Pawb.
17	Ymgorffori buddsoddiad amgylcheddol mewn penderfyniadau prif ffrwd ar draws y llywodraeth, sefydliadau ariannol a busnesau	Adfer yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau; Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol	Llywodraeth Cymru
18	Cynnal polisi a signalau clir a sefydlog ar gyfer y farchnad i gefnogi buddsoddi hirdymor	Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol	Llywodraeth Cymru
19	Sefydlu Cymru fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer buddsoddi gonest a moesegol mewn adnoddau naturiol	Adfer yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau; Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol; Manteision cymunedol a lleol	Llywodraeth Cymru; Cyfryngwyr a Gweithredwyr Mecanweithiau
20	Monitro, gwerthuso a gwella'r system cyllido natur yn barhaus	Adfer yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau; Cynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol; Taro targedau cenedlaethol a rhyngwladol	Monitro a dilysu; Rheoleiddwyr a Chyrff Goruchwylio

Atodiadau

Atodiad A: Alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Strategaeth Cyllid Natur Cymru wedi'i datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Strategaeth yn ceisio cynyddu'r buddsoddiad mewn adnoddau naturiol mewn ffyrdd fydd yn cefnogi lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol hirdymor. Nid yw cyllid natur yn ddiben ynddo'i hun; mae'n ffordd o adfer natur, gwrthsefyll newid hinsawdd, sicrhau cymunedau ffyniannus a thyfu'r economi mewn ffordd gynaliadwy gan sicrhau bod anghenion cenedlaethau heddiw a'r dyfodol yn cael eu hystyried.

Y Pum Ffordd o Weithio

1. Hirdymor

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar adfer a gwarchod adnoddau naturiol a'u rheoli'n gynaliadwy dros y tymor hir. Mae dirywiad amgylcheddol, colli bioamrywiaeth a'r newid yn yr hinsawdd yn heriau hirdymor na ellir mynd i'r afael â nhw trwy gylchoedd cyllido tymor byr yn unig. Mae'r Strategaeth felly yn canolbwyntio ar greu'r amodau, y trefniadau llywodraethu a'r systemau buddsoddi sydd eu hangen i helpu natur i ymadfer dros ddegawdau yn hytrach na blynyddoedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu ffrydiau refeniw a modelau ariannu hidrymor; a helpu i gyrraedd targedau cenedlaethol gan gynnwys ymrwymïadau hinsawdd ac adfer natur.

2. Atal

Un o egwyddorion craidd y Strategaeth yw atal dirywiad amgylcheddol cyn iddo ddigwydd. Mae'r Strategaeth yn cydnabod y gall lleihau ac ailgyfeirio'r llif arian sy'n cyfrannu at golli natur fod yn fwy effeithiol yn aml na chyllido ei hadfer yn ddiweddarach. Mae enghreifftiau'n cynnwys cymhwyso'r hierarchaeth liniaru; diwygio'r cymhellion sy'n cyfrannu at ddirywio'r amgylchedd; a lleihau costau delio ag effeithiau llifogydd, ansawdd dŵr gwael, colli cynefinoedd a newid hinsawdd yn y dyfodol.

3. Integreiddio

Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn gysylltiedig â'i gilydd. Bwriedir i gyllid natur gefnogi llawer o amcanion yr un pryd, gan gynnwys adfer natur, addasu i'r hinsawdd, ansawdd dŵr, ffyniant gwledig, gwydnwch cymunedau a datblygu'r economi. Mae enghreifftiau'n cynnwys nodi blaenoriaethau buddsoddi ar sail lle sy'n esgor ar fwy nag un fantais; cefnogi'r Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur; alinio'r buddsoddi ag amcanion adfer natur, addasu i'r hinsawdd a rheoli tir yn gynaliadwy; ac annog mecanweithiau ariannu sy'n gallu blaenoriaethu prosiectau sy'n esgor ar fanteision amgylcheddol a chymunedol.

4. Cydweithio

Ni all yr un sefydliad ar ei ben ei hun adfer natur. Cafodd y Strategaeth ei datblygu trwy gydweithio rhwng llywodraeth, cyrff cyhoeddus, busnesau, buddsoddwyr,

rheolwyr tir, sefydliadau amgylcheddol, ymchwilwyr a chymunedau. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu cymunedau ymarfer; partneriaethau â chymunedau lleol i nodi prosiectau â blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi ynddynt; partneriaethau rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddatblygu seilwaith a mecanweithiau; a chydweithredu â phartneriaid y DU a rhyngwladol ar safonau, llywodraethu a datblygu polisi.

5. Cyfranogiad

Mae'r Strategaeth yn cydnabod y dylai cymunedau, rheolwyr tir, busnesau a rhanddeiliaid gael cyfleoedd i siapio cyllid natur a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Dylai cyllid natur adlewyrchu blaenoriaethau lleol a chreu buddion i'r lleoedd lle mae'r buddsoddi'n digwydd. Mae enghreifftiau'n cynnwys y gweithdai rhanddeiliaid a'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd i ddatblygu'r Strategaeth hon; dulliau sy'n seiliedig ar leoedd o nodi cyfleoedd; ac ystyried manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol.

Cyfrannu at y Saith Nod Llesiant

1. Cymru lewyrchus

Mae'r Strategaeth yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy trwy gynyddu buddsoddiad mewn adnoddau naturiol, creu cyfleoedd i fusnesau gan gynnwys busnesau bach a chanolig, cefnogi gweithgarwch yr economi werdd a glas, ac annog arloesi mewn gwasanaethau amgylcheddol a seilwaith naturiol.

2. Cymru Gydnerth

Dyma brif gyfraniad y Strategaeth. Gall mwy o fuddsoddiad mewn bioamrywiaeth, ecosystemau a seilwaith naturiol wneud ecosystemau'n fwy gwydn, adfer cynefinoedd, addasu i'r hinsawdd ac adfer yr amgylchedd yn yr hirdymor.

3. Cymru iachach

Mae adnoddau naturiol iach yn cyfrannu at ddŵr glân, y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd, hamddena, mynediad at natur a llesiant. Gall buddsoddi mewn seilwaith naturiol helpu hefyd i leihau risgiau amgylcheddol sy'n effeithio ar gymunedau.

4. Cymru sy'n fwy cyfartal

Mae'r Strategaeth yn hyrwyddo buddsoddiad sy'n dod â manteision i bob rhan o Gymru ac yn cydnabod pwysigrwydd bod ystod amrywiol o sefydliadau, gan gynnwys busnesau llai, rheolwyr tir a chymunedau, yn cael manteisio ar gyfleoedd.

5. Cymru o gymunedau cydlynus

Gall cyllid natur wneud cymunedau'n fwy gwydn, cefnogi stiwardiaeth leol a buddsoddiad sy'n seiliedig ar le a gwella'r amgylchedd gan gryfhau ardaloedd lleol. Mae cyfranogiad cymunedol yn egwyddor allweddol sy'n sail ar gyfer ei rhoi ar waith ac mae'n arbennig o bwysig wrth benderfynu ar brosiectau blaenoriaeth a buddsoddi.

6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae adnoddau naturiol, tirweddau a morluniau yn cyfrannu at ddiwylliant, treftadaeth ac ymdeimlad o le yng Nghymru. Gall buddsoddi mewn natur helpu i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor cymunedau gwledig ac arfordirol lle mae treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol yn parhau'n bwysig.

7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Strategaeth yn helpu i gyflawni ymrwymïadau rhwngwladol gan gynnwys y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, Cytundeb Paris a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae hefyd yn hyrwyddo ymagwedd onest at gyllido natur sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ymdrechion byd-eang i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd.

Atodiad B: Alinio â thargedau, polisïau a nodau cenedlaethol a rhyngwladol allweddol

Enw	Alinio
Cymru	
Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024	Canlyniadau – gwneud ecosystemau'n fwy gwydn, rheoli llifogydd yn naturiol a lleihau risg o effeithiau'r hinsawdd
Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026	Mae Egwyddorion Amgylcheddol a thargedau bioamrywiaeth yn sefydlu canlyniadau amgylcheddol hirdymor a all helpu i lywio blaenoriaethau buddsoddi, monitro ac atebolrwydd wrth adfer natur. Yn benodol, mae'r egwyddor integreiddio yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ystyriaeth annatod wrth wneud penderfyniadau a dewis buddsoddiad, sef un o ddibenion craidd y Strategaeth hon.
Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040	Canlyniadau – datblygu cynaliadwy, seilwaith gwydn, gwrthsefyll effeithiau'r hinsawdd a seilwaith gwyrdd, gan gynnwys cynllunio gofodol ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur
Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.	Amcanion – defnyddio dulliau naturiol i leihau'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol, defnyddio natur i addasu i'r newid yn yr hinsawdd
Y Polisi Adnoddau Naturiol	Canlyniadau – gwneud ecosystemau'n fwy gwydn, gwella bioamrywiaeth (budd net), twf cynaliadwy, datgarboneiddio'r economi
Tîm y Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur	Fframwaith strategol traws-lywodraethol ar gyfer cydlynu'r gweithredu dros hinsawdd a natur, gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer adfer natur, gwrthsefyll yr hinsawdd a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bwriad y Strategaeth Cyllid Natur yw cefnogi'r Cynllun trwy gynyddu buddsoddiad mewn canlyniadau amgylcheddol.
Cynllun Gweithredu Adfer Natur	Blaenoriaethau a gweithredoedd dros natur o ran adfer cynefinoedd, adfer rhywogaethau a chryfhau ecosystemau. Gall cyllid natur helpu i ysgogi buddsoddiad ychwanegol i sicrhau'r canlyniadau hyn.
Manteision Net i Fioamrywiaeth	Amcan – gwella bioamrywiaeth trwy ddatblygu, gan greu galw posibl am fecanweithiau buddsoddi
Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon 2	Targedau – lleihau allyriadau a dal a storio carbon trwy ddefnydd tir, atebion sy'n seiliedig ar natur a llwybrau datgarboneiddio
Fframwaith Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau	Amcanion – lleihau llygredd maetholion a gwella ansawdd dŵr
Polisi Cynllunio Cymru	Polisi – rhoi'r hierarchaeth liniaru a'r gofyn i wella bioamrywiaeth o fewn datblygiad ar waith
Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023)	Amcanion – cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a sicrhau canlyniadau amgylcheddol yr un pryd, gan gynnwys ecosystemau gwydn, adfer bioamrywiaeth, lliniaru ac

	addasu i'r hinsawdd, rheoli dŵr a chymunedau gwledig gwydn
Cynllun Gweithredu Mawndir Cymru	Targedau – adfer mawndiroedd a chynnal ecosystemau mawndiroedd iach
Strategaeth Dŵr Cymru	Amcan – cydbwysu anghenion yr amgylchedd, cymunedau a busnesau i sicrhau bod dŵr yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn gynaliadwy
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Nodau – yn enwedig Cymru Gydnerth a Llewyrchus (gweler Atodiad A)
Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru	Gweledigaeth – moroedd sy'n lân, iach, diogel, cynhyrchiol a bioamrywiol Themâu – economi forol gynaliadwy, cymdeithas gref, iach a chyfiawn, byw o fewn terfynau'r amgylchedd
Y DU	
Rhaglen Buddsoddi mewn Natur BSI	Amcan – sefydlu safonau gonest a moesegol ar gyfer marchnadoedd natur, gan gefnogi mesur, adrodd a dilysu cyson
Strategaeth Cyllid Gwyrdd	Amcan – system ariannol Sero Net a chadarnhaol o blaid natur
Strategaeth Forol y DU	Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru'n gofyn am Statws Amgylcheddol Da ar gyfer ein moroedd
Strategaeth Sero Net y DU	Targedau – datgarboneiddio ar draws sectorau gan gynnwys defnydd tir
UE	
Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE ar gyfer 2030	Canlyniadau – adfer ecosystemau dirywiedig, gwneud ecosystemau'n fwy gwydn, gwrthdroi colli bioamrywiaeth a defnyddio buddsoddiad cyhoeddus a phreifat i adfer natur
Map Ffordd yr UE tuag at Gredydau Natur	Amcan – defnyddio cyllid preifat i ategu cyllid cyhoeddus i adfer natur trwy fecanweithiau cyllido natur gonest a moesegol
Cyfarwyddeb Adrodd Cynaliadwyedd Corfforaethol	Amcan – datgelu mwy o effeithiau, dibyniaethau, risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â natur, gan gefnogi buddsoddiad mewn canlyniadau amgylcheddol a chadwyni cyflenwi gwydn
Rheoliad Datgelu Cyllid Cynaliadwy	Amcan – gwneud risgiau ac effeithiau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd yn fwy tryloyw, gan gefnogi galw buddsoddwyr am fuddsoddiadau amgylcheddol credadwy
Rheoliad Tacsonomeg yr UE	Amcan – darparu fframwaith ar gyfer nodi gweithgareddau amgylcheddol gynaliadwy a chyfeirio buddsoddiad tuag at amcanion amgylcheddol
Byd-eang	
Y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang	Targed 3 – sicrhau bod o leiaf 30% o'r tir, dyfroedd mewndirol ac ardaloedd arfordirol a morol yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n effeithiol erbyn 2030. Targed 14 – integreiddio bioamrywiaeth mewn polisiâu, rheoliadau, prosesau cynllunio a datblygu, gan helpu i brif

	ffrydio bioamrywiaeth ym mhob rhan o'r llywodraeth a'r economi. Targed 15 - annog a galluogi busnesau a sefydliadau ariannol i asesu, datgelu a lleihau risgiau, dibyniaethau ac effeithiau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth, wrth gynyddu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth. Targed 18 – dileu neu ddiwygio gwerth o leiaf \$500 o gymhellion niweidiol y flwyddyn a chynyddu cymhellion cadarnhaol i helpu i warchod bioamrywiaeth a defnydd cynaliadwy. Targed 19 – sbarduno US\$200 biliwn y flwyddyn erbyn 2030 o bob ffynhonnell i helpu i warchod bioamrywiaeth a defnydd cynaliadwy ledled y byd.
Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd - Cytundeb Paris	Targedau – cyfyngu ar gynhesu byd-eang a chynyddu'r buddsoddiad i liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, gan gynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur
Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig	Nodau – pob un o'r 17, yn enwedig gweithredu dros yr hinsawdd, bywyd o dan y dŵr, bywyd ar y tir a dŵr glân

Atodiad C: Sut y gall risgiau sy'n gysylltiedig â natur a'r hinsawdd sbarduno buddsoddiad

Mae deall effeithiau a dibyniaethau amgylcheddol yn hanfodol i nodi pryd y dylid osgoi, lleihau, lliniaru neu wrthbwysu gweithgareddau. Mae gwahanol fframweithiau asesu yn gweithredu ar wahanol raddfeydd.

Ar lefel sefydliad, portffolio a chadwyn gwerth, mae fframweithiau fel y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â Natur (TNFD) a'r Gyfarwydddeb Adrodd ar Gynaliadwyedd Corfforaethol (CSRD) yn helpu sefydliadau i nodi, asesu a datgelu eu heffeithiau, eu dibyniaethau, eu risgiau a'u cyfleoedd sy'n gysylltiedig â natur. Gall yr asesiadau hyn lywio penderfyniadau strategol, rheoli risgiau a blaenoriaethau buddsoddi. Felly hefyd, mae'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) yn canolbwyntio ar risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae datgeliad gorfodol y TCFD yn y DU wedi'i gysylltu â'r cynnydd yn y buddsoddiad strategol mewn cynaliadwyedd, a gallai mabwysiadu TNFD helpu i ysgogi ystyriaeth debyg o risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â natur. Gall sefydliadau wedyn ddefnyddio fframweithiau fel y Rhwydwaith Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTN) a'r fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTi) i osod targedau mesuradwy ar gyfer lleihau effeithiau amgylcheddol a chyfrannu at nodau natur a hinsawdd. Gyda'i gilydd, mae'r fframweithiau hyn yn helpu sefydliadau i fynd o ddeall effeithiau a dibyniaethau i gymryd camau i'w hosgoi, eu lleihau a'u lliniaru.

Ar lefel prosiect, dylid asesu effeithiau amgylcheddol trwy brosesau asesu effeithiau priodol. Mae'r rhain yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i allu defnyddio'r hierarchaeth lliniaru sy'n helpu datblygwyr a phenderfynwyr i weld sut i osgoi, lleihau neu lliniaru effeithiau cyn ystyried mesurau cydbwysu neu wrthbwysu ar gyfer unrhyw effeithiau sydd ar ôl.

Wrth i ymwybyddiaeth o'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â natur dyfu, mae cyrff rheoleiddio a sefydliadau sy'n gosod safonau yn ystyried fwyfwy sut y dylid datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â natur a'i hymgorffori wrth fuddsoddi a gwneud penderfyniadau busnes.

Atodiad D: Mekanweithiau ariannu darluniadol

Mae'r mecanweithiau a ddisgrifir yn yr atodiad hwn at cael eu defnyddio at ddibenion darluniadol ac i ddangos yr ystod o mecanweithiau a ddefnyddir trwy'r byd. Nid yw eu cynnwys yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn eu cymeradwyo nac yn ymrwymo i'w defnyddio yng Nghymru. Bydd penderfyniadau ynghylch pa rai i'w defnyddio yn y dyfodol yn dibynnu ar bolisi, tystiolaeth, arfarnu opsiynau posibl, trafod â rhanddeiliaid a threialon profi a gwerthuso.

Mae mecanweithiau cyllido yn cysylltu'r galw am ganlyniadau amgylcheddol â'r rhai sy'n gallu eu sicrhau, er mwyn i gyllid allu llifo tuag at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gellir meddwl amdanynt yn aml fel mathau o daliadau am wasanaethau ecosystem. Cafodd y mecanweithiau a nodwyd fel y rhai mwyaf perthnasol i Gymru eu crynhoi i greu rhestr fer a'u cymryd o *Catalogue of Finance Solutions* BIOFIN a thystiolaeth yr OECD, ar sail eu perthnasedd i adnoddau naturiol a sbardunau polisi Cymru, a'u potensial i ysgogi cyllid ychwanegol yng Nghymru. Nid oes yn rhaid cadw'r mecanweithiau hyn ar wahân a byddant yn fwyaf tebygol o fod yn effeithiol pan gânt eu defnyddio gyda'i gilydd fel rhan o system cyllido natur ehangach.

Taliadau amgylcheddol cyhoeddus

Mae taliadau amgylcheddol cyhoeddus yn darparu cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau sy'n sicrhau canlyniadau amgylcheddol a buddion cyhoeddus. Maent yn hanfodol i gefnogi gweithredoedd sy'n anodd eu masnacheiddio ac i greu'r amodau i ddenu rhagor o gyllid preifat. Yng Nghymru, mae enghreifftiau'n cynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y Gronfa Rhwydweithiau Natur, grantiau creu coetiroedd, rhaglenni adfer mawndiroedd, a chyllid ar gyfer rheoli pysgodfeydd cynaliadwy ac adfer ecosystemau morol drwy fentrau fel Cronfa Forol Cymru.

Buddsoddi corfforaethol a buddsoddi mewnol

Mae buddsoddi gan gorfforaethau yn cyfeirio cyfalaf preifat tuag at weithgareddau sy'n lleihau'r risgiau i fusnesau ac yn gwella canlyniadau amgylcheddol. Yn wahanol i wrthbwysio, sydd fel arfer yn ariannu gweithgareddau mewn mannau eraill, mae buddsoddi mewnol (*insetting*) yn canolbwyntio ar fuddsoddi yng nghadwyn gyflenwi'r sefydliad ei hun neu yn y llefydd y daw ei adnoddau ohono. Trwy fuddsoddi mewn gweithgareddau fel amaethyddiaeth adfywiol, amaethgoedwigaeth a stiwardiaeth dŵr, gall busnesau wneud eu hunain yn fwy ecolegol, cymdeithasol ac economaidd wydn, lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â natur a'r hinsawdd a chreu gwerth^{xxxvi} hirdymor. Nododd rhanddeiliaid y bydd gwydnwch cadwyn gyflenwi, diogelwch cyflenwadau dŵr a'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd oll yn sbardunau buddsoddi pwysig i gorfforaethau yn y dyfodol.

Mae buddsoddiad corfforaethol yn arbennig o berthnasol i Gymru gan fod sectorau sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol fel amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd, adnoddau dŵr a chadwyni cyflenwi mor bwysig. Yng Nghymru, mae enghreifftiau'n cynnwys Rhwydweithiau Menter Tirwedd (LENs), sy'n dod â sefydliadau at ei gilydd i gyd-gyllido a chynnal amaethyddiaeth adfywiol ac atebion sy'n seiliedig ar natur i wneud y dirwedd yn fwy gwydn. Mae LENs yn pentyrru cyllid oddi wrth wahanol sefydliadau

yng Nghymru, gan baru gofynion y prynwr â rheolwyr tir lleol sy'n sicrhau canlyniadau amgylcheddol wedi'u mesur a'u dilysu.

Cronfeydd amgylcheddol

Mae cronfeydd arian amgylcheddol yn cyfuno cyfalaf o un neu fwy o ffynonellau ac yn ei fuddsoddi mewn prosiectau sy'n esgor ar ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Mae'r cronfeydd hyn yn bodoli ar draws sbectrwm sy'n amrywio o gronfeydd buddsoddi effaith sy'n ceisio canlyniadau amgylcheddol yr un pryd ag enillion ariannol, i gronfeydd cyllid cymysg, cronfeydd elusennol a rhaglenni grantiau sy'n rhoi blaenoriaeth i fuddion amgylcheddol.

Gall cronfeydd amgylcheddol fod yn bwysig ar gyfer cyfuno cyfalaf, datblygu piblinell o brosiectau a chyllido adfer natur ar raddfa tirwedd a dalgylch. Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at bwysigrwydd y rôl gyfuno hon o ran lleihau costau trafodion i fuddsoddwyr, prynwyr a chyflenwyr. Ymhlith yr enghreifftiau sy'n berthnasol i Gymru y mae Cronfa MARINE Cymru, cronfeydd cadwraeth elusennol a chronfeydd buddsoddi cyfalaf effaith a naturiol ehangach sy'n gweithredu ledled y DU (gweler Tabl 7 am grynodedb o'r prif gronfeydd sy'n berthnasol i Gymru).

Tabl 7: Crynodeb o'r prif gronfeydd sy'n cefnogi adnoddau naturiol Cymru (yn gywir yn 2026)

Enw	Allbynnau	£m	Ffynhonnell
Cronfeydd buddsoddi effaith a chyllid cymysg			
Gresham House Forestry Funds (y DU)	Pren, creu cynefinoedd (plannu coed); lleihau carbon	3,400	Preifat
Cronfa Effaith UK Nature Finance Earth (sylw i ddechrau ar Loegr yn unig)	Creu a gwella cynefinoedd (mawndiroedd, coetir a chynyddu bioamrywiaeth)	65 (targed 90-120)	Cymysg (gan gynnwys £30m gan LI DU)
Cronfa Effaith Pioneer Triodos (yn buddsoddi'n bennaf mewn cwmnïau rhwngwladol)	Manteision cynaliadwyedd cyffredinol yn hytrach na gwasanaethau ecosystem penodol	524	Preifat
Portffolio Natur a Hinsawdd UK Infrastructure Bank	Lliniaru effeithiau'r hinsawdd ac addasu iddynt, seilwaith naturiol	Amrywiol	Cyhoeddus
Rhaglenni grantiau, elusennol a chyllid cyhoeddus			
Rhaglenni sy'n seiliedig ar natur a ariennir gan Dŵr Cymru / Ofwat	Ansawdd dŵr, adfer dalgylchoedd, defnyddio natur i reoli llifogydd	100	Preifat
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol	Prosiectau adfer cynefinoedd, treftadaeth a natur cymunedol	Amrywiol	Cyhoeddus / Loteri
Cronfa MARINE Cymru	Creu a gwella cynefinoedd (morol)	0.5	Preifat

Cronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru	Rheoli safleoedd gwarchodedig, adfer cynefinoedd a gwneud ecosystemau'n fwy gwydn	Amrywiol	Cyhoeddus
--	---	----------	-----------

Marchnadoedd amgylcheddol

Trwy farchnadoedd amgylcheddol, mae cyllidwyr yn cael ariannu gwelliannau amgylcheddol yn gyfnewid am gredydau neu ganlyniadau amgylcheddol penodol. Mae rôl marchnadoedd amgylcheddol yn dibynnu ar y canlyniadau y maent i fod eu sicrhau. Mae rhai yn cefnogi canlyniadau niwtral neu gydbwyso, ac mae rhai eraill yn darparu buddion amgylcheddol net sy'n cyfrannu at adfer yr amgylchedd ehangach.

Gall marchnadoedd amgylcheddol ddod â ffrydiau refeniw newydd i reolwyr tir, helpu sefydliadau i reoli effeithiau a risgiau amgylcheddol, a denu buddsoddiad preifat ychwanegol i adfer natur. Mae enghreifftiau'n cynnwys marchnadoedd carbon, marchnadoedd bioamrywiaeth, marchnadoedd maetholion a marchnadoedd dŵr (gweler Tabl 8 am grynodedb o'r prif farchnadoedd sy'n berthnasol i Gymru). Nododd rhanddeiliaid fod marchnadoedd amgylcheddol yn fwyaf effeithiol os oes sbardunau galw cryf, trefniadau llywodraethu clir a safonau cadarn yn eu cefnogi.

Bondiau gwyrdd a bondiau natur

Mae bondiau gwyrdd a bondiau natur yn offerynnau benthyca i godi cyfalaf ar gyfer prosiectau sy'n sicrhau canlyniadau amgylcheddol. Mae buddsoddwyr yn darparu cyllid ymlaen llaw ac yn cael eu had-dalu dros amser, fel arfer gydag enillion wedi'u clustnodi ar gyfer amcanion amgylcheddol penodol. Mae bondiau'n cefnogi buddsoddiad sylweddol mewn gweithgareddau fel adfer cynefinoedd, rheolaeth naturiol ar lifogydd, addasu i'r hinsawdd, creu coetiroedd a seilwaith dŵr. Mae bondiau gwyrdd a bondiau cynaliadwyedd eisoes yn cael eu defnyddio i gefnogi canlyniadau amgylcheddol yng Nghymru; Cyhoeddodd Dŵr Cymru £750 miliwn o fondiau cynaliadwyedd yn BIA25 i gyllido prosiectau gan gynnwys cynllun gorlifo naturiol ac uwchraddio gwaith trin dŵr gwastraff i leihau llygredd ffosfforws.

Tabl 8: Crynodeb o'r marchnadoedd amgylcheddol a gynhelir neu y gellid eu cynnal yng Nghymru

Math o alw	Gwlad	Sbardun y galw	Maint y galw	Maint y cyflenwad	Marchnad natur	Graddfa'r farchnad	Gwasanaeth ecosystem
Wedi'i sefydlu							
Yn cael ei reoleiddio	Lloegr (yn croesi i Gymru)	Deddf yr Amgylchedd 2021 (Enillion Net i Fioamrywiaeth)	Metrig Bioamrywiaeth Statudol		Enillion i Fioamrywiaeth	Lleol (ACLI, Ardaloedd Cymeriad Cenedlaethol, Ardaloedd y Cynllun Morol)	Creu a gwella cynefinoedd
Yn cael ei reoleiddio	Y DU	Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (Niwtraliaeth Maetholion)	Cyfrifiannellau lliniaru maetholion mewn dŵr	Cyfrifiannellau lliniaru maetholion mewn dŵr (a chyllideb)	Lliniaru Maetholion mewn dŵr	Lleol (dalgylchoedd ACA)	Lleihau llygredd nitrogen a ffosfforws mewn dŵr
Gwirfoddol	Y DU	Gwrthbwyso (Ymrwymadau Sero Net)	Dim	Cod Carbon Coetir, Cod Carbon Mawndir	Carbon	Y DU	Osgoi allyriadau carbon, dal a storio carbon
Gwirfoddol	Y DU	Buddsoddi mewnol i gryfhau'r gadwyn gyflenwi	Dim	Amrywiol (e.e., LENS)	Ar y fferm	Lleol (ACLI)	Amaethyddiaeth adfywiol
Newydd							
Yn cael ei reoleiddio	Cymru	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Manteision Net i Fioamrywiaeth)	Metrig yn cael ei ddatblygu		Manteision Net i Fioamrywiaeth	Lleol (ACLI)	Creu a gwella cynefinoedd
Yn cael ei reoleiddio	Lloegr	Rheoliadau Cynefinoedd (Niwtraliaeth Dŵr)	Cyfrifiannellau Arbed Dŵr		Arbedion dŵr	Lleol (Parthau Adnoddau Dŵr)	Arbedion dŵr

Gwirfoddol ac yn cael ei reoleiddio	Cymru a'r DU	Rheoli dalgylchoedd	Dim		Rhaglenni buddsoddi mewn dalgylch	Lleol (Parthau Adnoddau Dŵr)	Ansawdd dŵr, maint, gwynwch y dalgylch
Gwirfoddol	Y DU	Buddsoddi mewnol i gryfhau'r gadwyn gyflenwi	Dim	Amrywiol (e.e., WUF)	Rheoli Llifogydd yn Naturiol	Lleol (dalgyllch)	Rheoli llif dŵr, lleihau'r perygl o lifogydd
Gwirfoddol	Y DU	Gwrthbwysio (Ymrwymadau Sero Net)	Dim	Carbon Pridd, Carbon Môr/Morfeydd Heli	Carbon	Cenedlaethol (Cymru a'r DU)	Dal a Storio Carbon

(yn gywir yn 2026)

Atodiad E: Seilwaith ategol

Mae'r seilwaith a ddisgrifir yn yr atodiad hwn wedi'i ddarparu at ddibenion darluniadol ac i ddangos yr ystod o systemau ategol a ddefnyddir yn rhyngwladol. Nid yw eu cynnwys yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo model penodol nac yn ymrwymo i'w ddefnyddio yng Nghymru. Bydd penderfyniadau ynghylch pa rai i'w defnyddio yn y dyfodol yn dibynnu ar bolisi, tystiolaeth, arfarnu opsiynau posibl, trafod â rhanddeiliaid a phrofion ymarferol.

Mae seilwaith ategol yn ei gwneud yn bosib i fecanweithiau cyllido weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae rhannau allweddol yn cynnwys trefniadau llywodraethu ac achredu, safonau a methodolegau, cofrestri, platfformau, cytundebau cyfreithiol, a systemau data a thystiolaeth. Gyda'i gilydd, mae'r systemau hyn yn helpu i leihau costau trafodion, ennyn hyder a chefnogi tryloywder, ac yn galluogi cyllido natur ar raddfa fawr.

Llywodraethu ac achredu

Mae trefniadau llywodraethu ac achredu yn helpu i sicrhau bod mecanweithiau cyllido'n deg, yn dryloyw ac yn gyson. Mae enghreifftiau'n cynnwys cynlluniau achredu, cyrff llywodraethu, trefniadau goruchwyllo annibynnol, swyddogaethau stiwardiaeth y farchnad a mecanweithiau datrys anghydfodau. Gall y trefniadau hyn helpu i gadw'r farchnad yn onest a moesegol, lleihau costau diwydrwydd dyladwy ac ennyn hyder cyfranogwyr.

Safonau, metrigau a methodolegau

Mae safonau, metrigau a methodolegau yn darparu dulliau cyffredin ar gyfer diffinio, mesur phennu gwerth canlyniadau amgylcheddol. Maent yn cefnogi cysondeb ar draws prosiectau, yn lleihau ansicrwydd ac yn ennyn hyder bod canlyniadau'n cael eu hasesu'n deg ac yn dryloyw. Mae enghreifftiau'n cynnwys metrigau bioamrywiaeth, cyfrifiannellau cyllideb maetholion, dulliau cyfrif carbon fel y Cod Carbon Coetir a'r Cod Mawndir. I Gymru, efallai un cyfle allweddol fyddai sefydlu fframwaith ar gyfer cydnabod a chymeradwyo methodolegau presennol a newydd, yn hytrach na datblygu metrigau hollol newydd.

Systemau data a thystiolaeth

Mae systemau data a thystiolaeth yn helpu i nodi, pennu gwerth, monitro a rheoli canlyniadau amgylcheddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys mapio cyfleoedd gofodol, setiau data amgylcheddol, cronfeydd data buddsoddi ac offer cymorth penderfynu. Gall data hygyrch, dibynadwy a rhyngweithredol leihau costau diwydrwydd dyladwy, cefnogi tryloywder a gwella'r cydlyn ar draws y system cyllido natur.

Cofrestri

Mae cofrestri yn darparu cofnodion tryloyw o brosiectau, trafodion a chanlyniadau amgylcheddol. Maent yn helpu i osgoi cyfrif dwbl, cefnogi atebolrwydd ac yn ei gwneud yn bosib olrhain hawliadau amgylcheddol dros amser. Mae cofrestri'n sail i uniondeb, tryloywder a hygredd systemau cyllid natur. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cofrestrfa Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, Y Gofrestr Enillion Net i Fioamrywiaeth a Chofrestr Marchnad Dalgylch Gwlad yr Haf.

Cytundebau cyfreithiol

Mae trefniadau cyfreithiol a chontractiol clir yn helpu i ddiffinio cyfrifoldebau, dyrannu risgiau ac ennyn hyder y caiff ymrwymadau eu cyflawni dros amserlenni priodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys contractau safonol, cytundebau rheoli tir, cyfamodau cadwraeth, cytundebau talu ar sail canlyniadau a chytundebau prynu credyd.

Platfformau a chrynhoi

Mae platfformau a chyfryngwyr yn helpu i gysylltu'r rhai sy'n chwilio am ganlyniadau amgylcheddol â'r rhai sy'n gallu eu cyflawni. Gallant leihau costau trafodion, gwella mynediad i'r farchnad a chynyddu cyfranogiad. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd cyfuno i alluogi ffermydd, rheolwyr tir a sefydliadau cymunedol llai gymryd rhan. Mae enghreifftiau'n cynnwys platfformau masnachu fel EnTrade, gwasanaethau broceriaeth a chynghori, a mentrau cyfuno prosiectau fel LENS a Great Yellow, sy'n helpu i gydlyn buddsoddiad ar draws nifer o dir-diddalidau a buddiolwyr.

Llyfryddiaeth

- ⁱ Dasgupta, P. (2021), The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review
- ⁱⁱ Office for National Statistics (2025) UK natural capital accounts 2025. Ar gael ar-lein: Available online: <https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/bulletins/uknaturalcapitalaccounts/2025> (Cyrchwyd 15/06/2026)
- ⁱⁱⁱ eftec (2026) Yr Achos Economaidd dros Natur
- ^{iv} UK Nature Impact Fund (2026) About UK Nature. Ar gael ar-lein: <https://uknaturefund.com/about-uk-nature/> (Cyrchwyd 18/06/2026)
- ^v Partneriaeth Sefyllfa Natur (2023) ^v Sefyllfa Natur
- ^{vi} JNCC (2025) Maint a chyflwr Ardaloedd Gwarchodedig. Ar gael ar-lein: <https://jncc.gov.uk/our-work/ukbi-protected-areas/> (Cyrchwyd 18/06/2026)
- ^{vii} Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru (2026) Rheoliadau Cynefinoedd Adroddiad Cryno ar gyfer y cyfnod adrodd 2019-2024 yng Nghymru
- ^{viii} Cyfarfod Llawn Senedd Cymru (2021) – Chweched Senedd. Ar gael ar-lein: <https://record.senedd.wales/Plenary/12320#C371405> [Cyrchwyd 18 Mehefin 2026]
- ^{ix} Department for Environment, Food & Rural Affairs (2026). Nature security assessment on global biodiversity loss, ecosystem collapse and national security
- ^x GFI and WWF (2025) Business Investment in Nature: Supporting UK Economic Resilience and Growth
- ^{xi} Energy & Climate Intelligence Unit (2026) Impact of heatwaves and drought on UK harvest prospects in 2026.
- ^{xii} Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- ^{xiii} IPBES (2026). Summary for Policymakers of the Methodological Assessment Report on the Impact and Dependence of Business on Biodiversity and Nature's Contributions to People. Jones M., Polasky S., Rueda X., Brooks S., Carter Ingram J., Egoh B. N., von Hase A., Kohsaka R., Kulak M., Leach K., Loyola R., Mandle L., Rodriguez-Osuna V., Schaafsma M. and Soter L. J. (eds.). IPBES secretariat, Bonn, Germany. DOI: <https://doi.org/10.5281/zenodo.15369060>
- ^{xiv} UK Parliament POST (2022) Financial risks of nature loss
- ^{xv} University of Oxford (2024) Nature degradation could cause a 12% loss to UK GDP. Ar gael ar-lein: <https://www.ox.ac.uk/news/2024-04-29-nature-degradation-could-cause-12-loss-uk-gdp> [Accessed 18 June 2026]
- ^{xvi} OECD (2026) Mobilising Public and Private Finance for Biodiversity: Good Practices in Unlocking Capital for Nature, OECD Publishing, Paris, <https://doi.org/10.1787/e2b996a1-en>
- ^{xvii} CBI Economic, Energy & Climate Intelligence Unit (2026) The Welsh Net Zero Economy in 2025: Scale and industrial transformation
- ^{xviii} Biodiversity Units UK (2025) The 'BNG Industry' Report July 2025
- ^{xix} United Nations Environment Programme (2021) Smart, Sustainable and Resilient cities: the Power of Nature-based Solutions
- ^{xx} Adrannau 29(1) a 6(1), yn y drefn honno, o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- ^{xxi} Llywodraeth Cymru (2026) Egwyddorion buddsoddi cynaliadwy ar gyfer adnoddau naturiol. Ar gael ar-lein: <https://www.gov.wales/sustainable-investment-principles-natural-resources-html> [Cyrchwyd 18 Meh 2026]
- ^{xxii} United Nations Environment Programme (2023) State of Finance for Nature 2023: The Big Nature Turnaround – Repurposing \$7 Trillion to Combat Nature Loss. <https://doi.org/10.59117/20.500.11822/44278>
- ^{xxiii} Consortiwm Natur Gogledd Cymru (2026) Cost gweithredu ar gyfer Natur yng Ngogledd Cymru.
- ^{xxiv} Rayment Consulting (2024) For farming, nature and climate. Investing in the UK's natural infrastructure to achieve Net Zero and nature's recovery on land. A report for the RSPB, National Trust and The Wildlife Trusts.
- ^{xxv} GFI, eftec and Rayment Consulting (2021) The Finance Gap for UK Nature: Assessing the finance gap for nature-related outcomes across the UK and the devolved authorities.
- ^{xxvi} OECD (2020) A comprehensive overview of global biodiversity finance, *OECD Environment Policy Papers*, No. 47, OECD Publishing, Paris, <https://doi.org/10.1787/25f9919e-en>.
- ^{xxvii} The Nature Conservancy (2024) Building towards Nature Markets for the European Union: a case for an EU-wide certification framework

^{xxviii} Ermgassen, S., Hawkins, I., Lundhede, T., Liu, Q., Jellesmark Thorsen, B. and Bull, J. (2025) The current state, opportunities and challenges for upscaling private investment in biodiversity in Europe. *Nature Ecology & Evolution* 9: 515-525

^{xxix} The Nature Conservancy and Forest Trends (2026) Gaining Ground: State of Private Investment in Nature.

^{xxx} Department for Energy Security and Net Zero, UK Government (2026) Voluntary Carbon and Nature Markets: Raising Integrity – Summary of consultation responses

^{xxxi} UNDP (2024) BIOFIN Workbook: Finance for Nature

^{xxxii} Bannau Brycheiniog National Park Authority and nature Positive (2026) Bridging the Gap: What drives the private sector to invest in Nature Recovery in Wales?

^{xxxiii} United Nation Biodiversity Finance Initiative (2026) BIOFIN Catalogue of Finance Solutions. Ar gael ar-lein: <https://www.biofin.org/finance-solutions> [Cyrchwyd 18 Mehefin 2026]

^{xxxiv} OECD (2020) A Comprehensive Overview of Global Biodiversity Finance, Final Report.

^{xxxv} UK Nature Markets Dialogue (2025) Towards a Governance Framework for UK Nature Markets: Key Findings and Proposals

^{xxxvi} WWF and Nature-based Insights (2024) Briefing Paper: Delivering more by insetting through nature-based solutions – looking beyond carbon, to support supply chain resilience, mitigate impacts and ensure benefits for nature and people.